

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 1848 (Cy.177)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

**Rheoliadau Awdurdodau Lleol
(Cynnal Refferenda) (Cymru) 2008**

Gwnaed - - - - 9 Gorffennaf 2008

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 26 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(1) a chan adrannau 45, 105 a 106(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(2) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(3):

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol ynglŷn â'r Rheoliadau hyn yn unol ag adran 45(8A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Yn unol ag adran 45(8B) ac (8C) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol ynglŷn â pha mor ddealladwy yw'r cwestiynau y gellir eu gofyn mewn refferendwm ynghyd â'r datganiadau sy'n rhagflaenu'r cwestiynau hynny fel a bennir yn y Rheoliadau hyn. Maent wedi cyflwyno adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n datgan y safbwyntiau a fynegwyd gan y Comisiwn yn ei ymateb.

Yn unol ag adran 45(8D) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi gofyn am farn y Comisiwn Etholiadol ar fater y cyfyngiad treuliau refferendwm ac wedi rhoi sylw i'r farn honno. Nid ydynt wedi cyflwyno datganiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â'r is-adran honno oherwydd bod y Rheoliadau hyn yn cyd-fynd â'r farn honno.

Yn unol ag adran 105(6) o'r Ddeddf honno (fel y'i cymhwysir gan baragraff 34(2) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), mae drafft o'r offeryn hwn wedi ei osod gerbron ac wedi ei gymeradwyo gan benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Enwi, cychwyn a dirymu

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2008.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym 14 diwrnod ar ôl y diwrnod pan gânt eu gwneud.

(1) 1993 p.38.

(2) 2000 p.22; mewnosodwyd adrannau 45(8A) i (8D) a diwygiwyd adran 45(9) gan baragraff 18 o Atodlen 21 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p.41); diwygiwyd adran 105(6) a mewnosodwyd adran 105(6A) gan baragraff 14 o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p.26).

(3) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys ar gyfer cynnal refferenda gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

(4) Dirymir Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2004(4).

Dehongli

2.—(1) Yn y rheoliadau hyn—

ystyr “ardal y bleidlais” (“*voting area*”) yw'r ardal lle y cynhelir refferendwm;

ystyr “arsylwr cyfrif” (“*counting observer*”) yw person a benodir gan swyddog cyfrif o dan reol 18(2) o Reolau Refferenda'r Ddeddf Llywodraeth Leol;

ystyr “arsylwr pleidleisio” (“*polling observer*”) yw person a benodir gan swyddog cyfrif o dan reol 18(1) o Reolau Refferenda'r Ddeddf Llywodraeth Leol;

ystyr “cyfnod y refferendwm” (“*referendum period*”), mewn perthynas â refferendwm (gan gynnwys refferendwm pellach), yw'r cyfnod sy'n cychwyn ar—

(a) pan fo'r dyddiad cynigion yn rhagflaenu'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym;

(b) mewn unrhyw achos arall, dyddiad y cynigion,

ac yn diweddu ar ddyddiad y refferendwm;

ystyr “cynigion wrth gefn amlinellol” (“*outline fall-back proposals*”)—

(a) mewn perthynas â chynigion o dan adran 25 (cynigion) o Ddeddf 2000, yw amlinelliad o'r cynigion y mae awdurdod lleol yn bwriadu eu gweithredu pe bai ei gynigion o dan adran 25 yn cael eu gwrthod mewn refferendwm;

(b) mewn perthynas â chynigion o dan reoliad 17 (gweithredu cyn refferendwm) neu reoliad 19 (gweithredu yn dilyn cyfarwyddyd) o'r Rheoliadau Deisebau a Chyfarwyddiadau, yw amlinelliad o'r cynigion y mae awdurdod lleol yn bwriadu eu gweithredu pe bai'r cynigion sydd i fod yn destun refferendwm o dan Ran II neu Ran III o'r Rheoliadau hynny yn cael eu gwrthod yn y refferendwm hwnnw;

(c) mewn perthynas â chynigion o dan orchymyn o dan adran 36 (refferendwm yn dilyn gorchymyn) o Ddeddf 2000, yw—

(i) os yw'r awdurdod lleol bryd hynny yn gweithredu trefniadau gweithrediaeth neu drefniadau amgen, crynodeb o'r trefniadau hynny;

(ii) mewn unrhyw achos arall, amlinelliad o'r cynigion a bennir yn y gorchymyn y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu gweithredu pe bai cynigion sydd i fod yn destun refferendwm yn cael eu gwrthod yn y refferendwm hwnnw;

(ch) mewn perthynas â chynigion o dan reoliadau o dan adran 30 (gweithredu trefniadau gweithrediaeth gwahanol) neu adran 33 (gweithredu trefniadau amgen) o Ddeddf 2000, yw crynodeb o drefniadau gweithrediaeth presennol neu drefniadau amgen presennol yr awdurdod lleol (yn ôl y digwydd);

ystyr “Deddf 1983” (“*the 1983 Act*”) yw Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(5);

ystyr “Deddf 1985” (“*the 1985 Act*”) yw Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985(6);

ystyr “Deddf 2000” (“*the 2000 Act*”) yw Deddf Llywodraeth Leol 2000(7);

ystyr “Deddf CB 2000” (“*the RP Act 2000*”) yw Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000(8);

(4) O.S. 2004/870 (Cy.85), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/3302 (Cy.256).

(5) 1983 p.2.

(6) 1985 p.50.

(7) 2000 p.22.

(8) 2000 p.2.

ystyr “Deddf yr Etholiadau” (“*the Elections Act*”) yw Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 **(9)**;

ystyr “dyddiad y cynigion” (“*proposals date*”)—

(d) mewn perthynas â refferendwm, ac eithrio refferendwm pellach, yw'r dyddiad pan gaiff cynigion—

(i) o dan adran 25 o Ddeddf 2000 sy'n ymwneud â ffurf o weithrediaeth y mae refferendwm yn ofynnol ar ei chyfer,

(ii) o dan reoliad 17 neu 19 o'r Rheoliadau Deisebau a Chyfarwyddiadau,

(iii) o dan orchymyn o dan adran 36 o Ddeddf 2000, neu

(iv) o dan reoliadau o dan adran 30 neu 33 o Ddeddf 2000**(10)**,

eu hanfon at Weinidogion Cymru; a

(e) mewn perthynas â refferendwm pellach, yw'r diwrnod sy'n digwydd ddau fis cyn y diwrnod y cynhelir y bleidlais yn y refferendwm pellach;

rhaidd dehongli “etholiad llywodraeth leol” (“*local government election*”) yn unol ag adran 203(1) o Ddeddf 1983;

rhaidd dehongli “etholiad maerol” (“*mayoral election*”) yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Etholiadau Maerol) (Cymru a Lloegr) 2007**(11)**;

rhaidd dehongli “etholiad Senedd Ewrop” (“*European Parliamentary election*”) ac “etholiad cyffredinol Senedd Ewrop” (“*European Parliamentary general election*”) yn unol ag adran 27(1) o Ddeddf 1985**(12)**;

ystyr “maer etholedig” (“*elected mayor*”), mewn perthynas ag awdurdod lleol, yw unigolyn a etholir yn faer yr awdurdod lleol gan etholwyr llywodraeth leol ardal yr awdurdod lleol yn unol â darpariaethau a wnaed gan, neu o dan Ran II o Ddeddf 2000;

ystyr “refferendwm” (“*referendum*”) yw refferendwm a gynhelir o dan adran 27 (refferendwm yn achos cynigion sy'n ymwneud â maer etholedig) o Ddeddf 2000, neu yn rhinwedd rheoliadau neu orchymyn a wnaed o dan unrhyw ddarpariaeth o Ran II (trefniadau o ran gweithrediaethau etc.) o Ddeddf 2000;

ystyr “refferendwm pellach” (“*further referendum*”) yw refferendwm a gynhelir yn unol â gorchymyn o dan reoliad 13(3);

ystyr “Rheolau Refferenda'r Ddeddf Llywodraeth Leol” (“*the Local Government Act Referendums Rules*”) yw'r rheolau a nodir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn;

ystyr “Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl” (“*the Representation of the People Regulations*”) yw Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001**(13)**;

ystyr “y Rheoliadau Deisebau a Chyfarwyddiadau” (“*the Petitions and Directions Regulations*”) yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2001**(14)**;

ystyr “swyddog cyfrif” (“*counting officer*”) yw person y cyfeirir ato yn rheoliad 9;

(9) 2000 p.41.

(10) *Gweler* Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/3158 (Cy.275)).

(11) O.S. 2007/1024.

(12) 1985 c. 50; diwygiwyd y diffiniadau gan adran 3 o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd (Diwygio) 1986 (p.58) o ganlyniad i ailenwi Cynulliad Ewrop yn Senedd Ewrop.

(13) O.S. 2001/341; fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/1700, 2002/1871, 2004/226, 2006/752 a 2006/2910.

(14) O.S. 2001/2292 (Cy.180) fel y'i diwygiwyd gan O.S.2003/398 (Cy.55).

mae i “swyddog priodol” yr ystyr a roddir i “*proper officer*” yn adran 270(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(15); ac

ystyr “trefnydd deiseb” (“*petition organiser*”), mewn perthynas â refferendwm, yw person a drinnir at ddibenion rheoliad 10(4) neu (5) (ffurfioldebau deisebau) (yn ôl y digwydd) o'r Rheoliadau Deisebau a Chyfarwyddiadau fel trefnydd unrhyw ddeiseb ddilys (p'un ai deiseb gyfunedig, deiseb gyfansoddol neu ddeiseb wedi'r cyhoeddiad) a dderbyniwyd gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal y refferendwm neu y cynhelir y refferendwm mewn perthynas ag ef(16).

(2) Mae pob cyfeiriad yn y darpariaethau canlynol o'r Rheoliadau hyn at adran â rhif yn ei dilyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu'n wahanol, yn gyfeiriad at yr adran yn Neddf 2000 sy'n dwyn y rhif hwnnw.

Y datganiad a'r cwestiwn sydd i'w ofyn mewn refferendwm

3. Pan fo'r cynigion y cynhelir refferendwm mewn perthynas â hwy yn ymwneud ag—
 - (a) gweithrediaeth o faer a chabinet, mae'r datganiad sydd i ragflaenu'r cwestiwn (“y datganiad”) a'r cwestiwn sydd i'w ofyn yn y refferendwm hwnnw i fod yn y ffurf a bennir ym mharagraff 1 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn;
 - (b) gweithrediaeth o faer a rheolydd y cyngor, mae'r datganiad a'r cwestiwn sydd i'w ofyn yn y refferendwm hwnnw i fod yn y ffurf a bennir ym mharagraff 2 o'r Atodlen honno;
 - (c) gweithrediaeth o arweinydd a chabinet, mae'r datganiad a'r cwestiwn sydd i'w ofyn yn y refferendwm hwnnw i fod yn y ffurf a bennir ym mharagraff 3 o'r Atodlen honno.

Cyhoeddusrwydd a gwybodaeth arall mewn cysylltiad â refferenda

4.—(1) Rhaid i'r swyddog priodol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y dyddiad cynigion, gyhoeddi mewn o leiaf un o'r papurau newydd sy'n cylchredeg yn ardal yr awdurdod lleol hysbysiad sydd yn cynnwys—

- (a) datganiad, yn ôl y digwydd, bod—
 - (i) cynigion o dan adran 25 sy'n ymwneud â ffurf o weithrediaeth y mae refferendwm yn ofynnol ar ei chyfer,
 - (ii) cynigion o dan reoliad 17(3) neu 19(1) o'r Rheoliadau Deisebau a Chyfarwyddiadau,
 - (iii) cynigion o dan orchymyn o dan adran 36, neu
 - (iv) cynigion o dan reoliadau o dan adran 30 neu 33, wedi eu hanfon at Weinidogion Cymru;
- (b) disgrifiad o brif nodweddion y cynigion ac o'r cynigion wrth gefn amlinellol;
- (c) datganiad—
 - (i) y cynhelir refferendwm,
 - (ii) o'r dyddiad y cynhelir y refferendwm,
 - (iii) o'r cwestiwn sydd i'w ofyn yn y refferendwm,
 - (iv) y cynhelir y refferendwm yn unol â gweithdrefnau cyffelyb i'r rhai a ddefnyddir mewn etholiadau llywodraeth leol,

(15) 1972 p.70.

(16) Ceir diffiniad o “*petition organiser*” yn rheoliad 3 o'r Rheoliadau Deisebau a Chyfarwyddiadau. O ran dilysrwydd deisebau, gweler rheoliad 9(1) o'r Rheoliadau hynny. O ran deisebau cyfunedig, deisebau cyfansoddol a deisebau wedi'r cyhoeddiad, ceir diffiniadau perthnasol yn rheoliad 3 o'r Rheoliadau hynny.

- (v) o'r cyfyngiad treuliau refferendwm (fel y'i diffinnir yn rheoliad 6(1)) a fydd yn gymwys mewn perthynas â'r refferendwm, ac o nifer yr etholwyr llywodraeth leol y cyfrifwyd y cyfyngiad hwnnw drwy gyfeirio ato,
- (vi) o'r cyfeiriad lle y gellir archwilio copi o'r cynigion a chynigion wrth gefn amlinellol yr awdurdod lleol, a'r amserau pan ellir gwneud hynny, a
- (vii) o'r gweithdrefnau ar gyfer cael copi o'r cynigion a'r cynigion wrth gefn amlinellol.

(2) Oni chyhoeddir yr hysbysiad sy'n ofynnol ei gyhoeddi yn ôl paragraff (1) ("yr hysbysiad cyntaf") o fewn llai na 56 o ddiwrnodau cyn dyddiad y refferendwm, rhaid i'r swyddog priodol gyhoeddi ail hysbysiad a fydd yn cynnwys y manylion a bennir ym mharagraff (1)(c)(i) i (vii).

(3) Rhaid cyhoeddi'r ail hysbysiad—

- (a) yn yr un papur neu bapurau newydd a ddefnyddiwyd i gyhoeddi'r hysbysiad cyntaf, a
- (b) nid mwy na 55 o ddiwrnodau ac nid llai na 28 o ddiwrnodau cyn dyddiad y refferendwm.

(4) Drwy gydol cyfnod y refferendwm, yn y cyfeiriad ac yn ystod yr amserau a nodir yn yr hysbysiad, a hynny'n ddi-dâl, rhaid i'r awdurdod lleol roi copi ar gael i'w archwilio o'i gynigion a'i gynigion wrth gefn amlinellol, a rhaid iddo sicrhau bod nifer digonol o gopïau ar gael i bersonau sy'n dymuno cael copïau.

(5) Caiff yr awdurdod lleol ddarparu (p'un ai yn unol ag unrhyw ddyletswydd i wneud hynny ai peidio) unrhyw wybodaeth ffeithiol arall mewn perthynas â'r cynigion, y cynigion wrth gefn amlinellol neu'r refferendwm, cyn belled ag y cyflwynir yr wybodaeth honno yn deg.

(6) Wrth benderfynu at ddibenion paragraff (5) a yw unrhyw wybodaeth yn cael ei chyflwyno'n deg, rhaid rhoi sylw, yn unol ag adran 38, i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir am y tro gan Weinidogion Cymru o dan adran 38.

Cyfyngu ar gyhoeddi etc. deunydd hyrwyddo

5.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i unrhyw ddeunydd sydd—

- (a) yn darparu gwybodaeth gyffredinol am y refferendwm,
- (b) yn ymwneud ag unrhyw un o'r materion a godir gan y cwestiwn sydd i'w ofyn yn y refferendwm, neu
- (c) yn cyflwyno unrhyw ddadleuon o blaid neu yn erbyn ateb penodol i'r cwestiwn hwnnw.

(2) Ni chaniateir cyhoeddi unrhyw ddeunydd y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo gan neu ar ran awdurdod lleol yn ystod y cyfnod o 28 diwrnod a ddaw i ben ar ddyddiad y bleidlais yn y refferendwm.

(3) Nid yw paragraff (2) yn gymwys i—

- (a) deunydd a roddir ar gael i bersonau mewn ymateb i geisiadau penodol am wybodaeth neu i bersonau sy'n ceisio cael mynediad i'r deunydd yn benodol,
- (b) cyhoeddi gwybodaeth ynglŷn â chynnal y bleidlais yn y refferendwm, neu
- (c) cyhoeddi hysbysiadau i'r wasg sy'n cynnwys gwybodaeth ffeithiol, os unig ddiben y cyhoeddi yw gwrthbrofi neu gywiro unrhyw anghywirdeb mewn deunydd a gyhoeddir gan berson ac eithrio'r awdurdod lleol.

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr "cyhoeddi" ("*publish*") yw rhoi ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol, neu i unrhyw ran o'r cyhoedd, ar ba ffurf bynnag a thrwy ba bynnag ddull (gan gynnwys, yn benodol, drwy gynnwys mewn unrhyw raglen a gynhwysir mewn gwasanaeth rhaglunedig o fewn ystyr Deddf Darlledu 1990 (17)); a dylid dehongli "cyhoeddiad" ("*publication*") yn yr un modd.

(17) 1990 p.42. Diwygiwyd adran 201, sy'n cynnwys y diffiniad o "*programme service*", gan adran 360 o Ddeddf Cyfathrebu 2003 (p.21) ac Atodlen 19 i'r Ddeddf honno.

Cyfyngiad cyffredinol ar dreuliau refferendwm

6.—(1) Yn y rheoliad hwn a rheoliad 7—

ystyr “at ddibenion refferendwm” (“*for referendum purposes*”) yw—

(a) mewn cysylltiad â chynnal neu reoli unrhyw ymgyrch a gynhelir gyda'r bwriad o hyrwyddo neu sicrhau canlyniad penodol mewn perthynas â'r cwestiwn a ofynnir yn y refferendwm, neu

(b) mewn cysylltiad fel arall â hyrwyddo neu sicrhau canlyniad o'r fath;

ystyr “cyfyngiad treuliau refferendwm” (“*referendum expenses limit*”) yw'r cyfanswm o £2,362 a'r swm a geir trwy luosi 5.9 ceiniog â nifer y cofnodion yn y gofrestr berthnasol;

ystyr “y gofrestr berthnasol” (“*the relevant register*”) yw'r gofrestr (neu gofrestrau) o etholwyr llywodraeth leol a gyhoeddwyd o dan adran 13 (cyhoeddi cofrestrau) o Ddeddf 1983(18) ar ôl terfynu'r canfasio a wnaed o dan adran 10 o'r Ddeddf honno(19) yn y flwyddyn a oedd yn rhagflaenu yn union y flwyddyn y cynhelir y refferendwm ynddi, sydd mewn grym yn ardal yr awdurdod lleol sy'n cynnal y refferendwm, neu y cynhelir y refferendwm mewn perthynas ag ef (p'un a oes hawl gan y personau y mae'r cofnodion yn ymwneud â hwy i bleidleisio yn y refferendwm ai peidio):

ystyr “trefnydd ymgyrch” (“*campaign organiser*”) yw'r unigolyn neu'r corff y tynnir treuliau refferendwm ganddo, neu ar ei ran (gan gynnwys treuliau a drinnir fel be baent wedi eu tynnu felly) mewn cysylltiad ag ymgyrch refferendwm;

ystyr “treuliau refferendwm” (“*referendum expenses*”) yw'r treuliau a dynnir gan neu ar ran unrhyw unigolyn neu gorff yn ystod y cyfnod refferendwm at ddibenion y refferendwm mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion a nodir ym mharagraffau 1 i 7 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn, fel y'u darllenir yn unol â pharagraff 8 o'r Atodlen honno;

ystyr “ymgyrch refferendwm” (“*referendum campaign*”) yw ymgyrch a gynhelir gyda'r bwriad o hyrwyddo neu sicrhau canlyniad penodol mewn perthynas â'r cwestiwn a ofynnir yn y refferendwm.

(2) Ni chaiff cyfanswm y treuliau refferendwm a dynnir gan neu ar ran unrhyw unigolyn neu gorff, neu a drinnir, yn unol â rheoliad 7, fel pe baent wedi eu tynnu felly, fod yn fwy na'r cyfyngiad treuliau refferendwm.

(3) Pan dynnir unrhyw dreuliau refferendwm sydd yn fwy na'r cyfyngiad treuliau refferendwm, bydd person a oedd yn gwybod, neu a ddylai yn rhesymol fod wedi gwybod, yr eid dros ben y cyfyngiad neu sydd, heb esgus rhesymol, yn awdurdodi person arall i fynd dros ben y cyfyngiad hwnnw, yn euog o dramgwydd.

(4) Pan roddir gwybodaeth i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus bod tramgwydd o dan baragraff (3) wedi ei gyflawni, dyletswydd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yw gwneud pa bynnag ymholiadau a chychwyn pa bynnag erlyniadau ag y bo'n ymddangos i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn ofynnol o dan amgylchiadau'r achos.

(5) Pan brofir bod tramgwydd o dan baragraff (3) a gyflawnwyd gan gorff corfforaethol wedi ei gyflawni gyda chydysniad neu ymoddefiad, neu y gellir ei briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran, cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog cyffelyb y corff corfforaethol, neu unrhyw berson arall sy'n honni gweithredu yn rhinwedd swydd o'r fath, bydd y person hwnnw yn ogystal â'r corff corfforaethol yn euog o'r tramgwydd hwnnw ac yn agored i gael achos cyfreithiol wedi ei ddwyn yn ei erbyn ac i'w gosbi yn unol â hynny.

(18) 1983 p.2; rhoddwyd adran 13 yn lle adran 13 fel y'i deddfwyd yn wreiddiol, gan baragraff 6 o Atodlen 1 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (p.2).

(19) Rhoddwyd adran 10 yn ogystal ag adran 10A yn lle adran 10 fel y'i deddfwyd yn wreiddiol, gan baragraff 4 o Atodlen 1 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (p.2) a diwygiwyd hi gan baragraffau 5 a 105 o Atodlen 1 i Ddeddf Gweinyddu Etholiadau 2006 (p.22).

- (6) Bydd person sy'n cyflawni tramgwydd o dan baragraff (3) yn agored—
- (a) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na'r uchafswm statudol neu gyfnod yn y carchar nad yw'n hwy na 12 mis, neu'r ddau, neu
 - (b) o'i gollfarnu ar ddiad, i ddirwy neu gyfnod yn y carchar nad yw'n hwy na 12 mis, neu'r ddau.

(7) Mewn perthynas â thramgwydd a gyflawnwyd cyn cychwyn adran 154(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003(20), rhaid darllen y cyfeiriad ym mharagraff (6)(a) at 12 mis fel pe bai'n gyfeiriad at 6 mis.

(8) Nid oes dim ym mharagraff (2) yn effeithio ar hawl unrhyw gredydwr na wyddai, pan achoswyd y draul fod y draul honno yn groes i'r paragraff hwnnw.

Treuliau refferendwm tybiannol

7.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan—

- (a) darperir eiddo, gwasanaethau neu gyfleusterau at ddefnydd neu er budd unrhyw berson naill ai—
 - (i) yn ddi-dâl, neu
 - (ii) ar ddisgownt o fwy na 10 y cant o'r gyfradd fasnachol am ddefnyddio'r eiddo neu ddarparu'r gwasanaethau neu'r cyfleusterau; a
- (b) y defnyddir yr eiddo, y gwasanaethau neu'r cyfleusterau gan neu ar ran y person hwnnw o dan y fath amgylchiadau fel pe dynnid (neu pan dynnir) yn wirioneddol unrhyw dreuliau gan y person hwnnw neu ar ran y person hwnnw mewn cysylltiad â'r defnydd hwnnw, byddent (neu maent) yn dreuliau refferendwm a dynnwyd gan y person hwnnw neu ar ran y person hwnnw.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, rhaid ymdrin â swm o dreuliau refferendwm a bennir yn unol â pharagraff (3), onid yw'n ddim mwy na £200, at ddibenion rheoliad 6 fel pe dynnwyd ef gan y person hwnnw yn ystod y cyfnod y defnyddir yr eiddo, y gwasanaethau neu'r cyfleusterau fel y nodir ym mharagraff (1)(b).

(3) Y swm a grybwyllir ym mharagraff (2) yw'r cyfryw gyfran o naill ai—

- (a) y gyfradd fasnachol am ddefnyddio'r eiddo neu am ddarparu'r gwasanaethau neu'r cyfleusterau (pan ddarperir yr eiddo, y gwasanaethau neu'r cyfleusterau yn ddi-dâl), neu
- (b) y gwahaniaeth rhwng y gyfradd fasnachol a swm y treuliau a dynnwyd mewn gwirionedd gan y person hwnnw neu ar ei ran am ddefnyddio'r eiddo neu am ddarparu'r gwasanaethau neu'r cyfleusterau (pan ddarperir yr eiddo, y gwasanaethau neu'r cyfleusterau ar ddisgownt),

ag y gellir yn rhesymol ei phriodoli i'r defnydd a wneir o'r eiddo, y gwasanaethau neu'r cyfleusterau fel y nodir ym mharagraff (1)(b).

(4) Pan roddir gwasanaethau cyflogai ar gael at ddefnydd neu er budd person gan gyflogwr y cyflogai, y swm sydd i'w ystyried yn gyfradd fasnachol am ddarparu'r gwasanaethau hynny yw swm y tâl neu'r lwfansau a fyddai'n daladwy i'r cyflogai gan gyflogwr y cyflogai am y cyfnod pan roddir gwasanaethau'r cyflogai ar gael (ond nid yw'r swm hwnnw i gynnwys unrhyw swm mewn perthynas â chyfraniadau neu daliadau eraill y mae'r cyflogwr yn atebol amdanynt mewn perthynas â'r cyflogai).

(5) Nid ystyrir bod unrhyw swm o dreuliau refferendwm wedi ei dynnu yn rhinwedd paragraff (2) mewn cysylltiad ag unigolyn sy'n darparu ei wasanaeth ei hun o'i wirfodd yn ei amser ei hun ac yn ddi-dâl.

Cynnal refferendwm

8.—(1) Mae refferendwm i'w gynnal yn unol â Rheolau Refferenda'r Ddeddf Llywodraeth Leol (a gynhwysir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn).

(2) Mae'r darpariaethau a grybwyllir yn y golofn gyntaf o'r Tablau 1 i 5 o Atodlen 4 i'r Rheoliadau hyn yn cael effaith mewn perthynas â refferenda, yn ddarostyngedig i'r addasiadau a bennir yn yr Atodlen honno ac i unrhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb yn y Rheoliadau hyn.

Swyddog cyfrif

9.—(1) Rhaid i'r swyddogaethau a roddwyd gan y Rheoliadau hyn i'r swyddog cyfrif gael eu harfer ym mhob ardal pleidlais gan y person sydd am y tro yn swyddog canlyniadau mewn etholiadau cynghorwyr ar gyfer yr ardal honno o dan adran 35(1A)(a) (swyddogion canlyniadau: etholiadau lleol) o Ddeddf 1983(21).

(2) Dyletswydd gyffredinol y swyddog cyfrif yn y refferendwm yw gwneud yr holl gyfryw weithredoedd a phethau a all fod yn angenrheidiol er mwyn cynnal y refferendwm yn effeithiol yn y modd a ddarperir gan y Rheoliadau hyn.

(3) Rhaid i'r swyddog cyfrif hefyd benodi a thalu'r cyfryw bersonau a all fod yn angenrheidiol at y diben o gyfrif y pleidleisiau.

Canlyniad y refferendwm neu refferendwm pellach

10.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn ddarostyngedig i reoliadau 12 a 13.

(2) Os yw mwyafrif y pleidleisiau a fwir mewn refferendwm, ac eithrio refferendwm pellach, yn bleidleisiau “o blaid”, canlyniad y refferendwm yw—

- (a) at ddibenion adran 27(7), cymeradwyo cynigion yr awdurdod lleol o dan adran 25;
- (b) at ddibenion rheoliad 23 (gweithredu pan gymeradwyir cynigion y refferendwm) o'r Rheoliadau Deisebau a Chyfarwyddiadau neu, yn ôl y digwydd, darpariaethau cymaradwy unrhyw reoliadau eraill neu orchymyn arall a wnaed o dan unrhyw ddarpariaeth o Ran II o Ddeddf 2000, cymeradwyo'r cynigion a oedd yn destun y refferendwm.

(3) Os yw mwyafrif y pleidleisiau a fwir mewn refferendwm, ac eithrio refferendwm pellach, yn bleidleisiau “yn erbyn”, canlyniad y refferendwm yw—

- (a) at ddibenion adran 27(8), gwrthod cynigion yr awdurdod lleol o dan adran 25;
- (b) at ddibenion rheoliad 24 (gweithredu pan wrthodir cynigion y refferendwm) o'r Rheoliadau Deisebau a Chyfarwyddiadau neu, yn ôl y digwydd, darpariaethau cymaradwy unrhyw reoliadau eraill neu orchymyn arall a wnaed o dan unrhyw ddarpariaeth o Ran II o Ddeddf 2000, gwrthod y cynigion a oedd yn destun y refferendwm.

(4) Os yw mwyafrif y pleidleisiau a fwir mewn refferendwm pellach yn bleidleisiau “o blaid”, canlyniad y refferendwm yw cymeradwyo parhau â threfniadau gweithrediaeth presennol yr awdurdod lleol neu ei drefniadau amgen presennol (yn ôl y digwydd).

(5) Os yw mwyafrif y pleidleisiau a fwir mewn refferendwm pellach yn bleidleisiau “yn erbyn”, canlyniad y refferendwm yw gwrthod parhau â threfniadau gweithrediaeth presennol yr awdurdod lleol neu ei drefniadau amgen presennol (yn ôl y digwydd).

(6) Mewn achos y mae paragraff (5) yn gymwys iddo, bydd adran 27(8) i (12) wedyn yn gymwys, fel pe bai canlyniad y refferendwm pellach yn wrthodiad o gynigion yr awdurdod lleol o dan adran 25, ond yn ddarostyngedig—

(21) 1983 p.2; mewnosodwyd is-adran (1A) gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, adran 66(6), Atodlen 16, paragraff 68(7).

- (a) yn adran 27(8)(b), i fewnosod y geiriau “that were proposed at the time of the referendum” ar ôl “outline fall-back proposals”,
- (b) yn adran 27(9), i hepgor y geiriau “outline fall-back proposals or”, ac
- (c) yn adran 27(10), i roi “Detailed” yn lle'r geiriau “Outline fall-back proposals and detailed”.

Gweithdrefnau ar gyfer cwestiynu refferendwm

11.—(1) Gellir cwestiynu refferendwm o dan y Rheoliadau hyn drwy ddeiseb (“deiseb refferendwm”)—

- (a) ar y sail nad oedd canlyniad y refferendwm yn unol â'r pleidleisiau a fwriwyd,
- (b) ar y sail bod y refferendwm wedi ei ddirymu gan y cyfryw arferion llwgr neu anghyfreithlon, o fewn yr ystyr yn Neddf 1983, sy'n berthnasol i refferenda yn rhinwedd rheoliad 8 neu baragraff (8),
- (c) ar y seiliau a ddarperir gan adran 164 (dirymu etholiad oherwydd llygredigaeth gyffredinol etc.) o Ddeddf 1983, fel y'i cymhwysir at ddibenion y Rheoliadau hyn gan baragraff (8), neu
- (ch) yn ddarostyngedig i baragraff (3), ar y sail bod taliad ariannol neu wobwr arall wedi eu gwneud neu'u haddo ers y refferendwm, yn unol ag arfer llwgr neu anghyfreithlon sy'n berthnasol i'r refferendwm yn rhinwedd rheoliad 8 neu baragraff (8).

(2) Rhaid cyflwyno deiseb refferendwm ar unrhyw un o'r seiliau ym mharagraff (1)(a) i (c) ddim hwyrach nag 21 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y cynhaliwyd y refferendwm.

(3) Caniateir cyflwyno deiseb refferendwm ar y sail a grybwyllir ym mharagraff (1)(ch) ddim ond gyda chaniatâd yr Uchel Lys.

(4) Rhaid gwneud cais am ganiatâd ddim hwyrach na 28 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad y taliad neu addewid honedig, drwy roi hysbysiad o gais i'r llys, ar ba bynnag adeg ac ym mha bynnag le a bennir gan y llys.

(5) Ddim llai na saith niwrnod cyn y diwrnod a bennir felly, rhaid i'r ymgeisydd—

- (a) gyflwyno'r hysbysiad o gais i'r ymatebydd ac i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus a rhoi copi yn y swyddfa deisebau etholiadau, a
- (b) cyhoeddi hysbysiad o'r bwriad i wneud cais mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn ardal y bleidlais ar gyfer y refferendwm y mae'r cais ym ymwneud ag ef.

(6) Rhaid i'r hysbysiad o gais ddatgan ar ba sail y gwneir y cais.

(7) Rhaid i ddeiseb refferendwm gael ei phrofi gan lys etholiad, hynny yw, llys a gyfansoddwyd o dan adran 130 (llys etholiad ar gyfer etholiad lleol yng Nghymru a Lloegr, a man cynnal treial) o Ddeddf 1983 ar gyfer profi deiseb etholiad, fel y'i cymhwysir gan baragraff (8).

(8) Mae Atodlen 5 i'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau sy'n cael effaith mewn perthynas â chwestiynu refferendwm, fel y cânt effaith mewn perthynas â chwestiynu etholiad o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn ddarostyngedig i'r addasiadau a bennir yn yr Atodlen honno ac i unrhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb yn y Rheoliadau hyn.

(9) Mae Rheolau Deisebau Etholiadau 1960(22) yn cael effaith mewn perthynas â deiseb refferendwm fel y cânt effaith mewn perthynas deiseb etholiad lleol o fewn ystyr y Rheolau hynny, yn ddarostyngedig i'r addasiadau a bennir yn Atodlen 6 i'r Rheoliadau hyn ac i unrhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb yn y Rheoliadau hyn.

Canlyniadau di-oed deisebau refferendwm

12.—(1) Mae'r rheoliad hwn, ac eithrio paragraff (8), yn gymwys—

- (a) pan gyflwynir deiseb refferendwm ar unrhyw un o'r seiliau a grybwyllir yn rheoliad 11(1) (a) i (c), neu
- (b) pan roddir caniatâd i gyflwyno deiseb refferendwm a ddygir ar y sail a grybwyllir yn 11(1) (ch).

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys—

- (a) mewn perthynas â refferendwm—
 - (i) lle'r oedd y datganiad a'r cwestiwn a ofynnwyd ar y ffurf a nodir ym mharagraff 3 o Atodlen 1, a
 - (ii) lle mae mwyafrif y pleidleisiau a fwriwyd yn bleidleisiau “o blaid”; a
- (b) cyn i'r awdurdod lleol basio penderfyniad o dan adran 29,

rhaid i'r awdurdod lleol beidio â chymryd unrhyw gamau pellach o ganlyniad i'r refferendwm hyd nes bo'r llys etholiad wedi ardystio ei benderfyniad ym mater y ddeiseb refferendwm.

(3) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys —

- (a) mewn perthynas â refferendwm—
 - (i) lle'r oedd y datganiad a'r cwestiwn a ofynnwyd ar y ffurf a nodir ym mharagraff 3 o Atodlen 1, a
 - (ii) lle mae mwyafrif y pleidleisiau a fwriwyd yn bleidleisiau “o blaid”; a
- (b) ar ôl i'r awdurdod lleol basio penderfyniad o dan adran 29,

rhaid i'r awdurdod lleol barhau i weithredu'r trefniadau gweithrediaeth sy'n destun y penderfyniad hwnnw.

(4) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys —

- (a) mewn perthynas â refferendwm —
 - (i) lle'r oedd y datganiad a'r cwestiwn a ofynnwyd ar y ffurf a nodir ym mharagraff 1 neu 2 o Atodlen 1, a
 - (ii) lle mae mwyafrif y pleidleisiau a fwriwyd yn bleidleisiau “o blaid”; a
- (b) nid oes etholiad i ethol maer etholedig wedi digwydd o ganlyniad i'r refferendwm,

rhaid i'r awdurdod lleol beidio â chymryd unrhyw gamau pellach o ganlyniad i'r refferendwm hyd nes bo'r llys etholiad wedi ardystio ei benderfyniad ym mater y ddeiseb refferendwm.

(5) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys —

- (a) mewn perthynas â refferendwm lle mae mwyafrif y pleidleisiau a fwriwyd yn bleidleisiau “yn erbyn”; a
- (b) pan fo cynigion wrth gefn amlinellol yr awdurdod lleol yn seiliedig ar y trefniadau gweithrediaeth neu drefniadau amgen yr oedd yn eu gweithredu ar ddyddiad y refferendwm, rhaid iddo barhau i weithredu'r trefniadau hynny.

(6) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys ond nad yw paragraff (5) yn gymwys—

- (a) mewn perthynas â refferendwm lle mae mwyafrif y pleidleisiau a fwriwyd yn bleidleisiau “yn erbyn”; a
- (b) cyn i'r awdurdod lleol basio penderfyniad o dan adran 29 (gweithredu trefniadau gweithrediaeth a chyhoedduswyd ar eu cyfer) neu adran 33 (gweithredu trefniadau amgen),

rhaid i'r awdurdod lleol beidio â chymryd unrhyw gamau pellach o ganlyniad i'r refferendwm hyd nes bo'r llys etholiad wedi ardystio ei benderfyniad ym mater y ddeiseb refferendwm.

(7) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys—

(a) mewn perthynas â refferendwm lle mae mwyafrif y pleidleisiau a fwriwyd yn bleidleisiau “yn erbyn”; a

(b) ar ôl i'r awdurdod lleol basio penderfyniad o dan adran 29 neu 33,

rhaid i'r awdurdod lleol barhau i weithredu'r trefniadau gweithrediaeth neu'r trefniadau amgen (yn ôl y digwydd) sy'n destun y penderfyniad hwnnw.

(8) Pan roddir caniatâd i gyflwyno deiseb refferendwm a ddygir ar y sail a grybwyllir yn rheoliad 11(1)(ch)—

(a) mewn perthynas â refferendwm—

(i) lle'r oedd y datganiad a'r cwestiwn a ofynnwyd ar y ffurf a nodir ym mharagraff 1 neu 2 o Atodlen 1, a

(ii) lle mae mwyafrif y pleidleisiau a fwriwyd yn bleidleisiau “o blaid”; a

(b) ar ôl i etholiad ddigwydd ar gyfer ethol maer etholedig o ganlyniad i'r refferendwm, bydd y maer etholedig yn parhau yn y swydd.

Penderfynu deisebau refferendwm a'r gweithdrefnau dilynol

13.—(1) Pan fo llys etholiad yn ardystio, fel ei benderfyniad ar ddeiseb refferendwm, bod canlyniad y refferendwm, a gyhoeddwyd o dan reoliad 10, naill ai yn unol â'r pleidleisiau a fwriwyd neu nad yw'n unol â'r pleidleisiau a fwriwyd (yn ôl y digwydd), rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad (ym mha dermau bynnag) at ddyddiad canlyniad y refferendwm yn yr amserlen—

(a) a gynhwysir yng nghynigion yr awdurdod lleol o dan adran 25;

(b) a gynhwysir yn ei gynigion o dan reoliad 17(3)(a) neu 19(1)(c) o'r Rheoliadau Deisebau a Chyfarwyddiadau;

(c) a baratowyd yn unol ag adran 27(4) neu reoliad 17(7)(a)(ii) neu 20(3)(a)(iii) o'r Rheoliadau hynny; neu

(ch) a baratowyd o ran unrhyw reoliadau eraill neu orchymyn a wnaed o dan unrhyw ddarpariaeth o Ran II (trefniadau mewn perthynas â gweithrediaethau etc.) o Ddeddf 2000.

fel cyfeiriad at y dyddiad pan fo'r llys etholiad yn ardystio ei benderfyniad.

(2) Pan fo llys etholiad yn ardystio, fel ei benderfyniad ar ddeiseb refferendwm a oedd yn nodi unrhyw un o'r seiliau a grybwyllir yn rheoliad 11(1), bod y refferendwm wedi ei ddirymu, rhaid i'r awdurdod lleol dan sylw gynnal refferendwm arall, ddim cynt na dau fis a dim hwyrach na thri mis ar ôl y dyddiad y cadarnhaodd y llys etholiad y penderfyniad hwnnw.

(3) Pan fo'r amgylchiadau fel a grybwyllir yn rheoliad 12(8)(a) a (b), rhaid i'r llys—

(a) wrthod y ddeiseb, neu

(b) ganiatáu'r ddeiseb,

a, phan fo'r llys yn caniatáu'r ddeiseb rhaid iddo gyhoeddi bod y refferendwm yn llygredig a gorchymyn bod refferendwm arall yn cael ei gynnal.

(4) Pan fo'r llys etholiad yn gwneud y gorchymyn a grybwyllir ym mharagraff (3), rhaid i'r awdurdod lleol gynnal y refferendwm pellach cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod o bum mlynedd sy'n cychwyn ar y dyddiad y cynhaliwyd y refferendwm llygredig.

(5) Os yw mwyafrif y pleidleisiau a fwrir mewn refferendwm pellach yn bleidleisiau “o blaid”—

- (a) pan fo'r awdurdod lleol yn gweithredu trefniadau gweithrediaeth, rhaid iddo barhau i weithredu'r trefniadau hynny oni chaiff, a hyd nes caiff, ei awdurdodi neu ei bod yn ofynnol iddo weithredu trefniadau gweithrediaeth gwahanol, neu ei awdurdodi i weithredu trefniadau amgen yn lle ei drefniadau gweithrediaeth presennol, a
- (b) pan fo'r awdurdod lleol yn gweithredu trefniadau amgen, rhaid iddo barhau i weithredu'r trefniadau hynny oni chaiff, a hyd nes caiff, ei awdurdodi i weithredu trefniadau amgen gwahanol, neu ei awdurdodi neu ei bod yn ofynnol iddo weithredu trefniadau gweithrediaeth yn lle ei drefniadau amgen presennol.
- (6) Os yw mwyaftrif y pleidleisiau a fwir mewn refferendwm pellach yn bleidleisiau “yn erbyn”—
- (a) rhaid i'r awdurdod lleol weithredu'r cynigion hynny a oedd yn gynigion wrth gefn amlinellol ganddo ar adeg y refferendwm llygredig, a
- (b) yn ddarostyngedig i baragraffau (7) ac (8), mae adran 27(13) (refferendwm yn achos cynigion sy'n ymwneud â maer etholedig) yn gymwys ar gyfer gweithredu cynigion wrth gefn manwl fel pe bai'r cynigion wrth gefn amlinellol hynny yn gynigion wrth gefn amlinellol ar achlysur pan wrthodir cynigion o dan adran 25 (cynigion) mewn refferendwm o dan adran 27.
- (7) Os y trefniadau gweithrediaeth neu drefniadau amgen a weithredid gan yr awdurdod ar ddyddiad y refferendwm llygredig yw cynigion wrth gefn amlinellol yr awdurdod, mae adran 27(13) yn gymwys (fel y crybwyllir ym mharagraff (6)) fel pe rhoddid y geiriau “as soon as practicable” yn lle “in accordance with the timetable mentioned in subsection (4)”
- (8) Os trefniadau gweithrediaeth sy'n cynnwys ffurf o weithrediaeth nad yw'n ofynnol cael refferendwm ar ei chyfer yw cynigion wrth gefn amlinellol yr awdurdod—
- (a) mae adran 29(1) (gweithredu trefniadau gweithrediaeth a chyhoeddusrwydd ar eu cyfer) yn gymwys at y diben o alluogi'r awdurdod i weithredu'r trefniadau gweithrediaeth a nodir yn ei gynigion wrth gefn manwl, fel y mae'n gymwys at y diben o alluogi awdurdod i weithredu trefniadau gweithrediaeth mewn amgylchiadau eraill, a
- (b) mae adran 29(2) yn gymwys fel pe bai is-baragraff (i) ym mharagraff (b) wedi ei amnewid gan—
- “(i) states that, in consequence of the rejection in a further referendum of the authority’s existing executive arrangements, the authority have resolved to operate the different executive arrangements that were described in their outline fall-back proposals at the time of the referendum.”.
- (9) Pan fo cynigion wrth gefn amlinellol yr awdurdod lleol yn drefniadau amgen—
- (a) mae adran 32(2) (gweithredu trefniadau amgen) yn gymwys at y diben o alluogi'r awdurdod lleol i weithredu'r trefniadau amgen a nodir yn ei gynigion wrth gefn manwl, fel y mae'n gymwys at y diben o alluogi awdurdod i weithredu trefniadau amgen mewn amgylchiadau eraill, a
- (b) mae adran 29(2) yn gymwys fel pe bai is-baragraff (i) ym mharagraff (b) wedi ei amnewid gan “(i) states that, in consequence of the rejection in a further referendum of the local authority’s existing executive arrangements the local authority have resolved to operate the alternative arrangements that were described in their outline fall-back proposals at the time of the referendum.”.
- (10) Mae'r Rheoliadau hyn, ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall, yn gymwys (i'r graddau y maent yn berthnasol) ar gyfer cynnal y refferendwm pellach, fel y maent yn gymwys i gynnal unrhyw refferendwm arall, yn ddarostyngedig i—
- (a) yn rheoliad 4—
- (i) hepgor paragraff (1)(a),

- (ii) ym mharagraff (1)(b), rhoi “trefniadau gweithrediaeth neu amgen presennol yr awdurdod lleol” yn lle “y cynigion”,
 - (iii) ym mharagraff (1)(c)(vi), rhoi “dogfen y nodir ynnddi brif nodweddion trefniadau gweithrediaeth neu amgen presennol yr awdurdod” yn lle “copi o'r cynigion”,
 - (iv) ym mharagraff (1)(c)(vii), rhoi “ddogfen honno a'r cynigion wrth gefn amlinellol hynny” yn lle “cynigion a'r cynigion wrth gefn amlinellol”,
 - (v) ar ôl paragraff (1)(c)(vii), mewnosod—
 - “(viii) os yw'n digwydd bod y refferendwm yn cael ei gynnal o ganlyniad i benderfyniad llys etholiad bod y refferendwm diwethaf a gynhaliwyd yn ardal yr awdurdod yn ddi-rym neu, yn ôl y digwydd, y datgenir iddo fod yn llygredig oherwydd gwneud neu addo taliad ariannol neu wobwr arall ers y refferendwm, yn unol ag arfer llwgr neu anghyfreithlon.”,
 - (vi) ym mharagraff (4), rhoi “dogfen ar gael i'w harchwilio sy'n nodi prif nodweddion trefniadau gweithrediaeth cyfredol neu drefniadau amgen cyfredol yr awdurdod” yn lle “copi ar gael i'w archwilio o'i gynigion”,
 - (vii) ym mharagraff (5), rhoi “â phrif nodweddion trefniadau gweithrediaeth neu amgen cyfredol yr awdurdod lleol” yn lle “â'r cynigion”, ac
- (b) yn lle paragraff 1 o Atodlen 1 a'r ffurf gyntaf sy'n ymddangos yn yr Atodiad i Reolau Refferenda'r Ddeddf Llywodraeth Leol, rhoi—

"Yn y refferendwm maerol a gynhaliwyd ar [mewnosoder y dyddiad fel y bo'n briodol] cymeradwyodd yr etholwyr ar gyfer [mewnosoder enw'r awdurdod lleol] y cynnig y dylai maer arwain y [mewnosoder "sir" neu "fwrdeistref sirol" fel y bo'n briodol] honno a bod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch gwasanaethau'r cyngor ynghyd â "chabinet" o gynghorwyr etholedig a benodid gan y maer hwnnw. Ar [mewnosoder y dyddiad fel y bo'n briodol] cyhoeddodd y Llys Etholiad fod y refferendwm maerol hwnnw yn llygredig. Gorchynnodd y Llys Etholiad fod refferendwm pellach i'w gynnal.

Os bydd mwyafrif y pleidleisiau a fwir yn y refferendwm pellach hwn yn bleidleisiau "yn erbyn", bydd [mewnosoder enw'r awdurdod lleol] yn gweithredu trefniadau [gweithrediaeth]* [amgen]* a fydd yn [arweinydd a etholir gan yr awdurdod a chabinet o gynghorwyr etholedig]* [faer etholedig a rheolwr cyngor a benodir felly gan yr awdurdod]* [fwrdd sy'n wleidyddol gytbwys]* a fydd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch gwasanaethau lleol y cyngor.

**dileer fel y bo'n briodol*

.....
Cwestiwn

A ydych o blaid bod [mewnosoder enw'r awdurdod lleol] yn parhau i gael ei arwain gan faer ynghyd â chabinet o gynghorwyr etholedig?"; ac

- (c) yn lle paragraff 2 o Atodlen 1 a'r ail ffurf sy'n ymddangos yn yr Atodiad i Reolau Refferenda'r Ddeddf Llywodraeth Leol, rhoi—

"Yn y refferendwm maerol a gynhaliwyd ar [mewnosoder y dyddiad fel y bo'n briodol] cymeradwyodd yr etholwyr ar gyfer [mewnosoder enw'r awdurdod lleol] y cynnig y dylai maer arwain y [mewnosoder "sir" neu "fwrdeistref sirol" fel y bo'n briodol] honno a bod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch gwasanaethau'r cyngor ynghyd â swyddog o'r [mewnosoder "sir" neu "fwrdeistref sirol" fel y bo'n briodol] honno, a benodir yn "rheolwr cyngor" gan gynghorwyr etholedig. Ar [mewnosoder y dyddiad fel y bo'n briodol] cyhoeddodd y Llys Etholiad fod y refferendwm maerol hwnnw yn llygredig. Gorchmynnodd y Llys Etholiad fod refferendwm pellach i'w gynnal.

Os bydd mwyafrif y pleidleisiau a fwir yn y refferendwm pellach hwn yn bleidleisiau "yn erbyn", bydd [mewnosoder enw'r awdurdod lleol] yn gweithredu trefniadau [gweithrediaeth]* [amgen]* a fydd yn [faer etholedig a chabinet o gynghorwyr etholedig a benodir gan y maer]* [arweinydd a etholir gan yr awdurdod a chabinet o gynghorwyr etholedig]* [fwrdd sy'n wleidyddol gytbwys]* a fydd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch gwasanaethau lleol y cyngor.

**dileer fel y bo'n briodol*

.....

Cwestiwn

A ydych o blaid bod [mewnosoder enw'r awdurdod lleol] yn parhau i gael ei arwain gan faer ynghyd â rheolwr cyngor?"

(11) Yn dilyn prif wrandawriad deiseb refferendwm y rhoddwyd caniatâd ar ei chyfer ac y mae'r amgylchiadau fel a grybwyllir mewn unrhyw baragraff o reoliad 12 ac eithrio paragraff (8), rhaid i'r llys etholiad naill ai—

- (a) gwrthod y ddeiseb, neu
- (b) caniatáu'r ddeiseb,

a phan fo'r llys yn caniatáu'r ddeiseb, rhaid iddo gyhoeddi bod y refferendwm yn ddi-rym.

Amser

14.—(1) Rhaid anwybyddu'r diwrnodau a grybwyllir ym mharagraff (2) wrth gyfrifo unrhyw gyfnod o amser at ddibenion rheoliad 4(1).

- (2) Y diwrnodau a grybwyllir yn y paragraff hwn yw—
 - (a) dydd Sadwrn neu ddydd Sul,

- (b) Noswyl Nadolig, Dydd Nadolig, dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sy'n wyl banc o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(23) yng Nghymru, ac
- (c) unrhyw ddiwrnod a bennir yn ddiwrnod o ddiolchgarwch neu alaru cyhoeddus.

Hysbysebion

15. Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992(24) yn cael effaith mewn perthynas ag arddangos, ar unrhyw safle yn ardal y bleidlais, unrhyw hysbyseb sy'n ymwneud yn benodol â'r refferendwm, fel y maent yn effeithiol mewn perthynas ag arddangos hysbyseb sy'n ymwneud yn benodol ag etholiad llywodraeth leol.

Trethi annomestig: mangre a ddefnyddir at ddibenion refferendwm

16. Mewn perthynas â mangre yn ardal y bleidlais, mae adran 65(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(25) (meddiant ar gyfer cynnal cyfarfodydd etholiad a phleidleisiau) yn cael effaith fel pe bai—

- (a) y cyfeiriad at gyfarfodydd cyhoeddus er hyrwyddo ymgeisyddiaeth person mewn etholiad yn cynnwys cyfeiriad at gyfarfodydd cyhoeddus sy'n hyrwyddo canlyniad penodol yn y refferendwm, a
- (b) y cyfeiriad at ddefnyddio gan swyddog canlyniadau at y diben o gynnal y bleidlais mewn etholiad yn cynnwys cyfeiriad at ddefnyddio at y diben o gymryd y bleidlais yn y refferendwm gan berson sy'n cyflawni swyddogaethau swyddog cyfrif yn unol â rheoliad 9.

9 Gorffennaf 2008

Brian Gibbons
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a
Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

(23) 1971 p.80.

(24) O.S. 1992/666 fel y'i diwygiwyd gan baragraff 233 o Atodlen 22 i Ddeddf Amgylchedd 1995 (p.25) ac O.S. 1994/2351, 1996/525, 1997/2971, 1999/1810, 2001/1149, 2001/4050, 2003/2155 a 2005/3050.

(25) 1988 p.41.

DATGANIADAU A CHWESTIYNAU SYDD I'W GOFYN MEWN REFFERENDWM

1. Ar hyn o bryd mae [mewnosoder enw'r awdurdod lleol] yn gweithio o dan "drefniadau [gweithrediaeth]* [amgen]*". Caiff [arweinydd y cyngor ei ddewis gan y cyngorwyr, ac yna mae arweinydd y cyngor yn dethol aelodau eraill o'r cyngor i ddod yn aelodau o gabinet y cyngor]* [arweinydd y cyngor ac aelodau o gabinet y cyngor eu dewis gan y cyngorwyr]* [maer ei ddewis gan yr etholwyr ac yna mae'r maer yn dethol aelodau eraill o'r cyngor i ddod yn aelodau o gabinet y cyngor]* [maer ei ddewis gan yr etholwyr a phenodir rheolwr y cyngor gan y cyngorwyr]* [y cyngor ei redeg gan fwrdd sy'n wleidyddol gytbwys]*. [Mae arweinydd y cyngor a'r cabinet]* [Mae'r maer etholedig a'r cabinet]* [Mae'r maer etholedig a rheolwr y cyngor]* [Mae'r Bwrdd]* yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch gwasanaethau lleol y cyngor.

Cafwyd [deiseb yn gwneud cynnig]* [cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru a chynigir]* [Gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru a chynigir]* [mae'r cyngor wedi cynnig]* i newid hyn fel y byddai, yn y dyfodol, maer a etholir yn uniongyrchol gan etholwyr yn [sir]* [bwrdeistref sirol]* yn arwain y cyngor. Byddai'r maer yn penodi dau aelod o'r cyngor neu fwy i ddod yn aelodau o'r cabinet, a byddai'r maer a'r cabinet yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch gwasanaethau lleol y cyngor.

**dileer fel y bo'n briodol*

.....

Cwestiwn

A ydych o blaid y cynnig i gael maer a etholwyd yn uniongyrchol ar gyfer [mewnosoder enw'r awdurdod lleol]?

2. Ar hyn o bryd mae [mewnosoder enw'r awdurdod lleol] yn gweithio o dan "drefniadau [gweithrediaeth]* [amgen]*". Caiff [arweinydd y cyngor ei ddewis gan y cyngorwyr, ac yna mae arweinydd y cyngor yn dethol aelodau eraill o'r cyngor i ddod yn aelodau o gabinet y cyngor]* [arweinydd y cyngor ac aelodau o gabinet y cyngor eu dewis gan y cyngorwyr]* [maer ei ddewis gan yr etholwyr ac yna mae'r maer yn dethol aelodau eraill o'r cyngor i ddod yn aelodau o gabinet y cyngor]* [maer ei ddewis gan yr etholwyr a phenodir rheolwr y cyngor gan y cyngorwyr]* [y cyngor ei redeg gan fwrdd sy'n wleidyddol gytbwys]*. [Mae arweinydd y cyngor a'r cabinet]* [Mae'r maer etholedig a'r cabinet]* [Mae'r maer etholedig a rheolwr y cyngor]* [Mae'r Bwrdd]* yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch gwasanaethau lleol y cyngor.

Statws This is the original version (as it was originally made).

Cafwyd [deiseb yn gwneud cynnig]* [cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru a chynigir]* [Gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru a chynigir]* [mae'r cyngor wedi cynnig] i newid hyn fel y byddai, yn y dyfodol, maer a etholir yn uniongyrchol gan etholwyr yn [sir]* [bwrdeistref sirol]* yn arwain y cyngor. Byddai'r cynghorwyr yn penodi swyddog o [mewnosoder enw'r awdurdod lleol] i weithredu fel rheolwr y cyngor, a byddai'r maer a rheolwr y cyngor yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch gwasanaethau lleol y cyngor.

**dileer fel y bo'n briodol*

.....

Cwestiwn

A ydych o blaid y cynnig i gael maer a etholwyd yn uniongyrchol ar gyfer [mewnosoder enw'r awdurdod lleol]?

3. Ar hyn o bryd mae [mewnosoder enw'r awdurdod lleol] yn gweithio o dan "drefniadau [gweithrediaeth]* [amgen]*". Caiff [arweinydd y cyngor ei ddewis gan y cynghorwyr, ac yna mae arweinydd y cyngor yn dethol aelodau eraill o'r cyngor i ddod yn aelodau o gabinet y cyngor]* [arweinydd y cyngor ac aelodau o gabinet y cyngor eu dewis gan gynghorwyr]* [maer ei ddewis gan yr etholwyr ac yna mae'r maer yn dethol aelodau eraill o'r cyngor i ddod yn aelodau o gabinet y cyngor]* [maer ei ddewis gan yr etholwyr a phenodir rheolwr y cyngor gan y cynghorwyr]* [y cyngor ei redeg gan fwrdd sy'n wleidyddol gytbwys]*. [Mae arweinydd y cyngor a'r cabinet]* [Mae'r maer etholedig a'r cabinet]* [Mae'r maer etholedig a rheolwr y cyngor]* [Mae'r Bwrdd]* yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch gwasanaethau lleol y cyngor.

Cafwyd [cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru]* [Gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru]* a chynigir newid hyn fel y byddai, yn y dyfodol, arweinydd y cyngor a etholir gan gynghorwyr [sir]* [bwrdeistref sirol]* yn arwain y cyngor. Byddai arweinydd y cyngor yn dethol aelodau eraill o'r cyngor i ddod yn aelodau o gabinet y cyngor, a byddai arweinydd y cyngor a'r cabinet yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch gwasanaethau lleol y cyngor.

**dileer fel y bo'n briodol*

.....

Cwestiwn

A ydych o blaid y cynnig i gael arweinydd cyngor a ddewisir gan gynghorwyr ar gyfer [mewnosoder enw'r awdurdod lleol]?

ATODLEN 2

Rheoliad 6(1)

Materion sy'n berthnasol i Dreuliau Refferendwm

1. Hysbysebion o unrhyw fath (beth bynnag fo'r cyfrwng).

Mae treuliau ar gyfer y cyfryw hysbysebion yn cynnwys ffioedd asiantaethau, costau dylunio, a chostau eraill mewn cysylltiad â pharatoi, cynhyrchu, dosbarthu neu sydd fel arall yn lledaenu'r cyfryw hysbysebion neu unrhyw beth sy'n ymgorffori'r cyfryw hysbysebion hynny ac a fwriedir ei ddsbarthu at y diben o'u lledaenu.

2. Deunydd digymell a gyfeirir at bleidleiswyr (p'un ai wedi ei gyfeirio atynt wrth eu henwau neu wedi ei fwriadu i'w ddanfôn i aelwydydd o fewn unrhyw ardal neu ardaloedd penodol).

Mae treuliau mewn perthynas â'r cyfryw ddeunyddiau yn cynnwys y costau dylunio a chostau eraill mewn cysylltiad â pharatoi, cynhyrchu neu ddsbarthu'r cyfryw ddeunyddiau (gan gynnwys cost eu postio).

3. Unrhyw ddeunyddiau o'r math a ddisgrifir yn rheoliad 5(1).

4. Ymchwil y farchnad neu ganfasio a gynhelir at y diben o ganfod bwriadau pleidleisio.

5. Darparu gwasanaethau neu gyfleusterau mewn cysylltiad â chynadleddau i'r wasg neu drafodion eraill gyda'r cyfryngau.

6. Cludo (drwy ba ddull bynnag) pobl i unrhyw le neu leoedd gyda'r bwriad o ennill cyhoeddusrwydd mewn cysylltiad ag ymgyrch refferendwm.

Mae'r treuliau ar gyfer cludo'r cyfryw bobl yn cynnwys y gost o logi math penodol o gludiant ar gyfer y cyfan neu ran o gyfnod y refferendwm.

7. Raliâu a digwyddiadau eraill, gan gynnwys cyfarfodydd cyhoeddus a drefnir i gael cyhoeddusrwydd mewn cysylltiad ag ymgyrch refferendwm neu at ddibenion eraill sy'n ymwneud ag ymgyrch refferendwm.

Mae'r treuliau ar gyfer y cyfryw ddigwyddiadau yn cynnwys costau mewn cysylltiad â phresenoldeb pobl mewn digwyddiadau o'r fath, llogi mangreoedd at ddibenion y cyfryw ddigwyddiadau hynny neu ddarparu nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau ynddynt.

8. Ni ddylid dehongli unrhyw beth ym mharagraffâu 1 i 7 i olygu ei fod a wnelo ag—

- (a) unrhyw dreuliau o ran unrhyw eiddo, gwasanaethau neu gyfleusterau i'r graddau y mae'r treuliau hynny i'w talu o gyllid cyhoeddus;
- (b) unrhyw dreuliau a dynnir o ran tâl neu lwfansau sy'n daladwy i unrhyw aelod o staff trefnydd yr ymgyrch;
- (c) unrhyw dreuliau a dynnir mewn perthynas ag unigolyn o ran costau teithio (ar ba bynnag ddull cludiant) neu o ran darparu llety neu unrhyw anghenion personol eraill ar gyfer yr unigolyn hwnnw i'r graddau y telir y treuliau gan yr unigolyn o'i adnoddau ei hunan heb iddo gael ad-daliad ohonynt.

ATODLEN 3

Rheoliad 8

Rheolau Refferenda'r Ddeddf Llywodraeth Leol

RHAN 1

Enwi a Dehongli

1. Enw
2. Dehongli

RHAN 2

Darpariaethau o ran Amser

3. Amserlen
4. Cyfrif amser

RHAN 3

Darpariaethau Cyffredinol

5. Hysbysiad o refferendwm
6. Pleidleisio drwy bleidlais gyfrinachol
7. Y papurau pleidleisio
8. Y rhestr rhifau cyfatebol
9. Y nod swyddogol
10. Gwahardd datgelu pleidlais
11. Defnyddio ysgolion ac ystafelloedd cyhoeddus

RHAN 4

Gweithredu sydd i'w Gyflawni cyn y Bleidlais

12. Hysbysiad o'r bleidlais
13. Papurau pleidlais bost
14. Darparu gorsafoedd pleidleisio
15. Penodi swyddogion llywyddu a chlercod pleidleisio
16. Dyroddi cardiau pleidleisio swyddogol
17. Cyfarpar mewn gorsafoedd pleidleisio
18. Penodi arsylwyr pleidleisio ac arsylwyr cyfrif
19. Hysbysu ynghylch y gofyniad cyfrinachedd
20. Dychwelyd papurau pleidlais bost

RHAN 5

Y Bleidlais

21. Mynediad i orsaf bleidleisio
22. Cadw trefn mewn gorsaf
23. Selio blychau pleidleisio
24. Cwestiynau i'w gofyn i etholwyr a dirprwyon
25. Herio etholwr neu ddirprwy
26. Gweithdrefn bleidleisio
27. Pleidleisiau wedi eu marcio gan y swyddog llywyddu
28. Pleidleisio gan bersonau ag anableddau
29. Papurau pleidleisio wedi eu tendro: yr amgylchiadau pan fônt ar gael
30. Papurau pleidleisio wedi eu tendro: darpariaethau cyffredinol
31. Papurau pleidleisio a ddifethwyd

- 32. Cywiro gwallau ar ddiwrnod y pleidleisio
- 33. Gohirio pleidleisio mewn achos o derfysg
- 34. Gweithdrefn wrth gau'r pleidleisio

RHAN 6

Cyfrif Pleidleisiau

- 35. Presenoldeb ar gyfer cyfrif pleidleisiau
- 36. Y cyfrif
- 37. Ailgyfrif
- 38. Papurau pleidleisio a wrthodir
- 39. Penderfyniadau ynghylch papurau pleidleisio
- 40. Pleidleisiau cyfartal

RHAN 7

Cyhoeddi'r Canlyniad a Lleoli'r Dogfennau

- 41. Cyhoeddi'r canlyniad
- 42. Selio'r papurau pleidleisio
- 43. Trosglwyddo dogfennau i'r swyddog cofrestru perthnasol
- 44. Gorchmynion i ddangos dogfennau
- 45. Cadw dogfennau

RHAN 8

Atodiad o Ffurfiâu

Llofnod
Nodyn Esboniadol

RHAN 1

Enwi a Dehongli

Enw

1. Enw'r Rheolau hyn yw Rheolau Refferenda'r Ddeddf Llywodraeth Leol.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheolau hyn, ystyr “pleidleisiwr” (“*voter*”) yw person sydd â hawl i bleidleisio ar ran y person hwnnw ei hunan.

(2) Mae i ymadroddion eraill a ddefnyddir yn y Rheolau hyn yn ogystal ag yn Neddf 1983 (fel y mae'n gymwys i etholiadau llywodraeth leol) yr un ystyr yn y Rheolau hyn ag sydd iddynt yn y Ddeddf honno.

RHAN 2

Darpariaethau o ran Amser

3. Rhaid cynnal y gweithrediadau yn y refferendwm yn unol â'r Amserlen ganlynol.

Amserlen

<i>Gweithrediadau</i>	<i>Amser</i>
Cyhoeddi hysbysiad o refferendwm	Dim hwyrach na'r pumed diwrnod ar hugain cyn diwrnod y refferendwm
Hysbysiad o'r bleidlais	Dim hwyrach na'r chweched diwrnod cyn diwrnod y refferendwm.
Pleidleisio	Rhwng yr oriau o 7 y bore a 10 yr hwyr ar ddiwrnod y refferendwm.

Cyfrif amser

4. Wrth gyfrifo unrhyw gyfnod o amser at ddibenion yr amserlen rhaid anwybyddu'r diwrnodau a grybyllir yn rheoliad 14(2)(a) i (c), a rhaid peidio â thrin unrhyw un o'r cyfryw ddiwrnodau fel diwrnod at ddiben unrhyw weithrediadau hyd at gwblhau'r bleidlais, ac nid oes rhwymedigaeth ar y swyddog cyfrif ychwaith i fynd ymlaen â chyfrif y pleidleisiau ar un o'r cyfryw ddiwrnodau.

RHAN 3**Darpariaethau Cyffredinol****Hysbysiad o refferendwm**

5.—(1) Rhaid i'r swyddog cyfrif gyhoeddi hysbysiad o refferendwm, sy'n datgan dyddiad y pleidleisio.

(2) Rhaid i'r hysbysiad o refferendwm ddatgan erbyn pa ddyddiad y bydd yn rhaid i—

(a) ceisiadau i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy, a

(b) ceisiadau a hysbysiadau eraill ynghylch pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy, gyrraedd y swyddog cofrestru er mwyn iddynt fod yn effeithiol ar gyfer y refferendwm.

Pleidleisio drwy bleidlais gyfrinachol

6. Rhaid cymryd pleidlais yn y refferendwm a rhaid i'r pleidleisiau gael eu bwrw mewn pleidlais gyfrinachol.

Y papurau pleidleisio

7.—(1) Rhaid i bleidlais pob person sydd â hawl i bleidleisio yn y refferendwm gael ei bwrw drwy ddefnyddio papur pleidleisio.

(2) Rhaid i bob papur pleidleisio sydd i'w ddefnyddio yn y refferendwm fod yn y ffurf briodol fel yn yr Atodiad (sy'n dibynnu ar y cwestiwn sydd i'w ofyn yn y refferendwm).

(3) Rhaid i bob papur pleidleisio —

(a) bod yn bapur y gellir ei blygu; a

(b) bod â rhif a nod adnabod unigryw arall wedi ei argraffu ar ei gefn.

Y rhestr rhifau cyfatebol

8.—(1) Rhaid i'r swyddog cyfrif baratoi rhestr sy'n cynnwys rhifau a nodau adnabod unigryw eraill yr holl bapurau pleidleisio sydd i'w dyroddi gan y swyddog cyfrif yn unol â rheol 13(1) neu eu darparu gan y swyddog cyfrif yn unol â rheol 17(1).

(2) Rhaid i'r rhestr fod yn y ffurf briodol fel yn yr Atodiad neu ffurf ag effaith gyffelyb.

Y nod swyddogol

9.—(1) Rhaid i bob papur pleidleisio gynnwys nod diogelwch priodol (y nod swyddogol).

(2) Rhaid cadw'r nod swyddogol yn gyfrinach.

(3) Caiff y swyddog cyfrif ddefnyddio nod swyddogol gwahanol at wahanol ddbenion yn yr un refferendwm.

Gwahardd datgelu pleidlais

10. Nid oes gorfodaeth ar unrhyw berson a bleidleisiodd yn y refferendwm, mewn unrhyw achos cyfreithiol a gynhelir i gwestiynu'r refferendwm, ddatgan dros ba ateb y pleidleisiodd y person hwnnw.

Defnyddio ysgolion ac ystafelloedd cyhoeddus

11.—(1) Caiff y swyddog cyfrif ddefnyddio, yn ddi-dâl, at y diben o gymryd y bleidlais neu gyfrif y pleidleisiau—

(a) ystafell mewn ysgol a gynhelir neu a gynorthwyir gan awdurdod addysg lleol, neu ysgol y gwneir grantiau mewn perthynas â hi allan o arian a ddarperir gan Weinidogion Cymru i'r person neu'r corff o bersonau sy'n gyfrifol am reolaeth yr ysgol;

(b) ystafell y mae'r draul o'i chynnal yn daladwy allan o unrhyw dreth.

(2) Rhaid i'r swyddog cyfrif adfer unrhyw ddifrod a achosir i unrhyw ystafell o'r math a grybwyllir uchod, a thalu unrhyw draul a achosir i'r personau sydd â rheolaeth drosti, o ganlyniad i'w defnyddio at y diben o gymryd y bleidlais neu o gyfrif y pleidleisiau.

RHAN 4

Gweithredu i'w Gyflawni cyn y Bleidlais

Hysbysiad o bleidlais

12.—(1) Rhaid i'r swyddog cyfrif gyhoeddi hysbysiad o'r bleidlais sy'n datgan —

(a) y diwrnod a'r oriau a bennwyd ar gyfer y bleidlais, a

(b) y datganiad a'r cwestiwn i'w ofyn yn y refferendwm.

(2) Rhaid cyhoeddi'r hysbysiad o bleidlais ddim hwyrach na'r chweched diwrnod cyn dyddiad y refferendwm.

(3) Rhaid i'r swyddog cyfrif, ddim hwyrach na'r adeg y cyhoeddir yr hysbysiad o'r bleidlais, roi hysbysiad cyhoeddus hefyd o—

(a) lleoliad pob gorsaf bleidleisio; a

(b) disgrifiad o'r personau sydd a hawl i bleidleisio yno.

Papurau pleidlais bost

13.—(1) Rhaid i'r swyddog cyfrif, yn unol â rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf 1983, (26) ddyroddi i'r rhai sydd â hawl i bleidleisio drwy'r post bapur pleidleisio a datganiad pleidlais bost, yn y ffurf briodol fel sydd yn yr Atodiad, neu ffurf ag effaith gyffelyb, ynghyd â pha bynnag amlenni ar gyfer eu dychwelyd a ragnodir gan y cyfryw reoliadau.

(2) Rhaid i'r swyddog cyfrif hefyd ddyroddi i'r rhai sydd â hawl i bleidleisio drwy'r post pa bynnag wybodaeth y mae'r swyddog cyfrif yn ei hystyried yn briodol ynglŷn â sut y gellir cael—

- (a) cyfieithiadau i ieithoedd ac eithrio'r Gymraeg neu'r Saesneg o unrhyw gyfarwyddiadau neu o ganllawiau i bleidleiswyr a dirprwyon a anfonir ynghyd â'r papur pleidleisio;
- (b) cyfieithiad i Braille o'r cyfryw gyfarwyddiadau neu ganllawiau;
- (c) portreadau graffigol o'r cyfryw gyfarwyddiadau neu ganllawiau;
- (ch) y cyfarwyddiadau neu ganllawiau mewn unrhyw ffurf arall (gan gynnwys unrhyw ffurf glywadwy).

(3) Rhaid i'r datganiad pleidlais bost gynnwys darpariaeth ar gyfer llofnodi'r ffurflen ac ar gyfer datgan dyddiad geni'r pleidleisiwr neu'r dirprwy.

(4) Yn achos papur pleidleisio a ddyroddir i berson mewn cyfeiriad yn y Deyrnas Unedig, rhaid i'r swyddog cyfrif sicrhau y gall y pleidleisiwr neu'r dirprwy dychwelyd y papur pleidleisio yn ddi—dâl.

Darparu gorsafodd pleidleisio

14.—(1) Rhaid i'r swyddog cyfrif ddarparu nifer digonol o orsafodd pleidleisio ac, yn ddarostyngedig i'r darpariaethau canlynol o'r rheol hon, rhaid iddo ddyrannu pleidleiswyr i'r gorsafodd pleidleisio yn y modd y tybia'r swyddog cyfrif yw'r hwylusaf.

(2) Caniateir darparu un neu ragor o orsafodd pleidleisio yn yr un ystafell.

(3) Rhaid i'r orsaf bleidleisio a ddyrennir i bleidleiswyr o unrhyw ddsbarth etholiadol seneddol, sydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn ardal y bleidlais, fod yn y man pleidleisio seneddol ar gyfer y dosbarth hwnnw, onid oes amgylchiadau arbennig.

(4) Rhaid i'r swyddog cyfrif, ym mhob gorsaf bleidleisio, ddarparu pa bynnag nifer o fythau y gall fod eu hangen, lle y gall pleidleiswyr a dirprwyon farcio'u pleidleisiau o'r golwg, y tu ôl i sgrîn.

Penodi swyddogion llywyddu a chlercod pleidleisio

15.—(1) Rhaid i'r swyddog cyfrif benodi a thalu i swyddog llywyddu i fod yn bresennol ym mhob gorsaf bleidleisio a'r cyfryw glercod ag y bo'u hangen at ddibenion y refferendwm.

(2) Os gwêl y swyddog cyfrif yn dda, caiff y swyddog cyfrif llywyddu mewn gorsaf bleidleisio, ac y mae'r darpariaethau yn y Rheolau hyn sy'n gymwys i swyddog llywyddu yn gymwys hefyd i swyddog cyfrif sy'n llywyddu felly, gyda'r addasiadau angenrheidiol o ran y pethau sydd i'w gwneud gan y swyddog cyfrif i'r swyddog llywyddu neu gan y swyddog llywyddu i'r swyddog cyfrif.

(3) Caiff swyddog llywyddu wneud, drwy'r clercod a benodir i gynorthwyo'r swyddog llywyddu, unrhyw weithred (gan gynnwys gofyn cwestiynau) yr awdurdodir y swyddog llywyddu i'w gwneud gan y Rheolau hyn, neu y mynnir ei fod yn ei gwneud, mewn gorsaf bleidleisio, ac eithrio gorchymyn i arestio unrhyw berson, neu ei allgáu neu ei symud o'r orsaf bleidleisio.

(26) *Gweler* Rheoliadau Deddf Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 O.S. 2001/341 (diwygiwyd gan O.S. 2001/1700, 2002/1871, 2004/226, 2006/752 a 2006/2910).

Dyrodidi cardiau pleidleisio swyddogol

16.—(1) Rhaid i'r swyddog cyfrifo, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad o refferendwm, anfon cerdyn pleidleisio swyddogol at bob pleidleisiwr a dirprwy.

(2) Rhaid i'r cerdyn pleidleisio swyddogol gael ei anfon neu ei ddanfôn—

(a) yn achos pleidleisiwr, i gyfeiriad cymhwysu'r pleidleisiwr, a

(b) yn achos dirprwy, i gyfeiriad y dirprwy fel y'i dangosir yn y rhestr dirprwyon.

(3) Rhaid i'r cerdyn pleidleisio fod yn y ffurf briodol fel y'i dangosir yn yr Atodiad neu ffurf ag effaith gyffelyb effaith, a rhaid iddo nodi—

(a) enw'r cyngor ac ardal y bleidlais;

(b) enw'r pleidleisiwr, cyfeiriad cymwys y pleidleisiwr a'i rif ar y gofrestr;

(c) dyddiad ac oriau'r bleidlais a lleoliad gorsaf bleidleisio'r pleidleisiwr;

(ch) pa wybodaeth bynnag arall ag y bo'r swyddog cyfrif yn ei hystyried yn briodol,

a chaniateir darparu gwybodaeth wahanol yn unol ag is-baragraff (ch) i wahanol bleidleiswyr neu i wahanol ddisgrifiadau o bleidleiswyr.

(4) Yn achos pleidleisiwr sydd â chofnod dienw yn y gofrestr, yn hytrach na chynnwys y deunydd a grybwyllir ym mharagraff (3)(b), rhaid i'r cerdyn pleidleisio gynnwys y cyfryw deunydd a bennir yn y ffurf briodol yn yr Atodiad.

(5) Yn y rheol hon mae cyfeiriadau at bleidleisiwr—

(a) yn cyfeirio at berson sy'n gofrestredig yn y gofrestr o etholwyr llywodraeth lleol ar gyfer ardal y bleidlais dan sylw ar y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi hysbysiad o refferendwm; a

(b) yn cynnwys person a ddangosir yn y gofrestr bryd hynny fel un sydd islaw oedran pleidleisio, os (ond yn unig os) yw'n ymddangos yn ôl y gofrestr y bydd y person hwnnw mewn oedran pleidleisio ar y diwrnod a bennwyd ar gyfer y bleidlais.

Cyfarpar mewn gorsafodd pleidleisio

17.—(1) Rhaid i'r swyddog cyfrif ddarparu i bob swyddog llywyddu pa bynnag nifer o flychau pleidleisio a phapurau pleidleisio a all fod, ym mam y swyddog cyfrif, yn angenrheidiol.

(2) Rhaid i bob blwch pleidleisio fod o wneuthuriad fel y gellir rhoi papurau pleidleisio i mewn ynddo ond na ellir eu tynnu allan heb ddatgloi'r blwch, neu, os nad oes clo ar y blwch, heb dorri'r sêl.

(3) Rhaid i'r swyddog cyfrif ddarparu i bob gorsaf bleidleisio—

(a) deunyddiau i alluogi'r pleidleiswyr a'r dirprwyon i farcio'r papurau pleidleisio;

(b) copiâu o'r gofrestr etholwyr ar gyfer ardal y bleidlais, neu'r cyfryw ran ohoni sy'n cynnwys enwau'r etholwyr a ddyrannwyd i'r orsaf bleidleisio;

(c) y rhannau o unrhyw restrau arbennig a baratowyd ar gyfer y refferendwm sy'n cyfateb i'r rhestr etholwyr ar gyfer ardal y bleidlais neu'r rhan ohoni a ddarperir o dan is-baragraff (b);

(ch) rhestr a gyfansoddir o'r rhan honno o'r rhestr a baratowyd o dan reol 8 sy'n cynnwys y rhifau (ond nid y nodau adnabod unigryw eraill) sy'n cyfateb i'r rhifau ar y papurau pleidleisio a ddarparwyd i swyddog llywyddu yr orsaf bleidleisio.

(4) Mae'r cyfeiriad ym mharagraff 3(b) at y copiâu o'r gofrestr etholwyr yn cynnwys cyfeiriad at gopïau o unrhyw hysbysiadau a gyhoeddwyd o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983(27) mewn perthynas â newidiadau yn y gofrestr.

(27) Mewnosodwyd adran 13B o Ddeddf 1983 gan baragraff 6 o Atodlen 1 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (p.2) a diwygiwyd yr adran honno gan adran 11(3) o Ddeddf Gweinyddu Etholiadau 2006 (p.22). Mewnosodwyd is-adranau (3B) a (3D) o adran 13B gan adran 11(4) o Ddeddf Gweinyddu Etholiadau 2006 (p.22).

(5) Rhaid i'r swyddog cyfrif ddarparu hefyd i bob gorsaf bleidleisio —

- (a) o leiaf un fersiwn fawr o'r papur pleidleisio, y mae'n rhaid ei arddangos y tu mewn i'r orsaf bleidleisio, i gynorthwyo pleidleiswyr a dirprwyon sy'n gweld yn rhannol; a
- (b) dyfais fel a ddisgrifir ym mharagraff (9) i alluogi pleidleiswyr sy'n ddall neu sy'n gweld yn rhannol i bleidleisio heb fod arnynt angen cymorth gan y swyddog llywyddu nac unrhyw gydymaith (o fewn ystyr rheol 28(1)).

(6) Rhaid argraffu hysbysiad mewn llythrennau amlwg yn y ffurf sydd yn yr Atodiad, i roi cyfarwyddiadau fel canllaw i bleidleiswyr a dirprwyon ynglŷn â phleidleisio, a rhaid ei arddangos y tu mewn a thu allan i bob gorsaf bleidleisio.

(7) Caiff y swyddog cyfrif ddarparu hefyd gopiâu o'r hysbysiad a grybwyllir ym mharagraff (6) mewn Braille, neu ei gyfieithu i ieithoedd ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg, fel y gwêl y swyddog cyfrif yn briodol, ar yr amod yr atgynhychir yr hysbysiad yn fanwl gywir mewn Braille neu yn yr iaith arall.

(8) Ym mhob bwth ym mhob gorsaf bleidleisio rhaid arddangos y hysbysiad

“REFERENDWM [*Noder enw'r cyngor*]. Rhowch groes (X) yn y blwch ar yr ochr dde gyferbyn â'r ateb o'ch dewis. Pleidleiswch UN WAITH yn unig. Peidiwch â rhoi unrhyw farc arall ar y papur pleidleisio, neu efallai na fydd eich pleidlais yn cael ei chyfrif.

[*Specify name of council*] REFERENDUM. Mark a cross (X) in the box on the right hand side of the answer of your choice. Vote ONCE only. Put no other mark on the ballot paper, or your vote may not be counted.”

(9) Rhaid i'r ddyfais y cyfeirir ati ym mharagraff 5(b)—

- (a) ganiatáu i bapur pleidleisio gael ei roi i mewn ynddi a'i dynnu allan ohoni, neu ei gysylltu wrthi a'i ddatgysylltu oddi wrthi, yn rhwydd a hynny heb ddifrodi'r papur;
- (b) dal y papur pleidleisio yn gadarn yn ei le tra defnyddir y ddyfais; ac
- (c) darparu dull addas i bleidleiswyr a dirprwyon—
 - (i) adnabod y bylchau ar y papur pleidleisio lle y gall y pleidleisiwr neu'r dirprwy farcio pleidlais y pleidleisiwr neu'r dirprwy;
 - (ii) canfod i ba ateb y mae pob un o'r cyfryw fylchau yn perthyn; a
 - (iii) marcio pleidlais y pleidleisiwr neu'r dirprwy yn y bwlch a ddewisir gan y pleidleisiwr neu'r dirprwy.

Penodi arsylwyr pleidleisio ac arsylwyr cyfrif

18.—(1) Caiff y swyddog cyfrif benodi personau i fod yn bresennol mewn gorsafoedd pleidleisio at y diben o ddarganfod cambersonadu (“arsylwyr pleidleisio”).

(2) Rhaid i'r swyddog cyfrif benodi personau i arsylwi ar gyfrif y pleidleisiau a gwirio'r gyfriflen papurau pleidleisio (“arsylwyr cyfrif”).

(3) At y diben o gynorthwyo'r swyddog cyfrif i gyflawni swyddogaethau'r swyddog cyfrif o dan baragraff (2), caiff trefnydd deiseb enwebu personau sydd, ym marn y trefnydd deiseb, yn addas i'w penodi yn arsylwyr cyfrif.

(4) Rhaid gwneud enwebiad o dan baragraff (3) drwy hysbysiad ysgrifenedig i'r swyddog cyfrif, ddim hwyrach na'r pumed diwrnod cyn y bleidlais (gan anwybyddu unrhyw ddiwrnod sydd i'w anwybyddu yn rhinwedd rheol 4) a rhaid i'r hysbysiad gynnwys cyfeiriad pob enwebai.

(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), rhaid i'r swyddog cyfrif beidio, heb reswm digonol, â gwrthod penodi yn arsylwr cyfrif unrhyw berson a enwebir gan drefnydd deiseb o dan baragraff (3).

(6) Caiff y swyddog cyfrif gyfyngu ar nifer yr arsylwyr cyfrif, fodd bynnag, fel bod—

- (a) rhaid caniatáu yr un nifer yn achos pob trefnydd deiseb, a
- (b) rhaid i'r nifer a ganiateir i drefnydd deiseb (ac eithrio mewn amgylchiadau arbennig) beidio â bod yn llai na'r nifer a gyfrifir drwy rannu nifer y clercoed a gyflogir ar gyfer cyfrif y pleidleisiau gan nifer y trefnwyr deisebau.

At ddibenion y cyfrifiadau sy'n ofynnol o dan y paragraff hwn, mae arsylwr cyfrif a benodir ar enwebiad mwy nag un trefnydd deiseb yn arsylwr cyfrif ar wahân ar gyfer pob un o'r trefnwyr deiseb a'i henwebodd.

(7) Os bydd farw arsylwr cyfrif a benodir ar enwebiad trefnydd deiseb, neu os yw'n mynd yn analluog i weithredu, caiff y trefnydd deiseb a wnaeth yr enwebiad enwebu person arall i'w benodi yn arsylwr cyfrif yn lle'r person hwnnw, drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r swyddog cyfrif.

(8) Mae'r paragraffau (4) a (5) yn gymwys i enwebiad o dan baragraff (7), os rhoddir “diwrnod olaf” yn lle “pumed diwrnod” ym mharagraff (4).

(9) Yn narpariaethau'r Rheolau hyn sy'n dilyn, mae cyfeiriadau at arsylwyr pleidleisio ac arsylwyr cyfrif i'w dehongli fel cyfeiriadau at arsylwyr sydd eisoes wedi eu penodi.

(10) Caniateir i unrhyw hysbysiad y mae'n ofynnol i'r swyddog cyfrif ei roi i arsylwr cyfrif a benodir ar enwebiad trefnydd deiseb gael ei ddanfôn, neu ei anfon drwy'r post, i'r cyfeiriad a nodir yn yr hysbysiad o enwebiad.

(11) Caiff trefnydd deiseb wneud unrhyw weithred neu beth yr awdurdodir arsylwr cyfrif i'w wneud, neu caiff gynorthwyo unrhyw arsylwr cyfrif a benodwyd yn dilyn ei enwebu, i wneud unrhyw weithred neu beth o'r fath.

(12) Pan pan fo'n ofynnol neu pan awdurdodir, o dan y Rheolau hyn, gwneud unrhyw weithred neu beth ym mhresenoldeb yr arsylwyr pleidleisio neu'r arsylwyr cyfrif, ni fydd amhresenoldeb unrhyw berson o'r fath ar yr adeg ac yn y man a bennwyd at y diben hwnnw, os cyflawnir y weithred neu'r peth yn briodol fel arall, yn annilysu'r weithred neu'r peth a wneir.

Hysbysu ynghylch gofyniad cyfrinachedd

19. Rhaid i'r swyddog cyfrif wneud pa bynnag drefniadau y tybia'r swyddog cyfrif sy'n addas i sicrhau —

- (a) bod pob person sy'n bresennol mewn gorsaf bleidleisio (ac eithrio at y diben o bleidleisio neu gynorthwyo pleidleisiwr neu ddirprwy sydd ag anableddau i bleidleisio neu fel cwnstabl ar ddyletswydd yno) wedi cael copi ysgrifenedig o ddarpariaethau is-adrannau (1), (3) a (6) o adran 66 o Ddeddf 1983(28), fel y'u cymhwysir gan Atodlen 4; a
- (b) bod pob person sy'n bresennol yn y cyfrif pleidleisiau (ac eithrio unrhyw gwnstabl ar ddyletswydd yn y cyfrif) wedi cael copi ysgrifenedig o ddarpariaethau is-adrannau (2) a (6) o'r adran honno fel y'u cymhwysir gan Atodlen 4.

Dychwelyd papurau pleidleisio

20.—(1) Pan fo—

- (a) pleidlais bost wedi ei dychwelyd mewn cysylltiad â pherson sydd wedi ei gofnodi ar y rhestr pleidleiswyr post, neu
- (b) pleidlais bost drwy ddirprwy wedi ei dychwelyd mewn perthynas â dirprwy sydd wedi ei gofnodi ar y rhestr o bleidleiswyr post fel dirprwyon,

(28) Diwygiwyd is-adrannau (1), (2) a (3) o adran 66 o Ddeddf 1983 gan baragraffau 69, 82, 86(a) a (b) a 96 o Atodlen 1 i Ddeddf Gweinyddu Etholiadau 2006 (p.22); diwygiwyd is-adran (6) gan baragraff 3 o Atodlen 3 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 (p.50).

rhaid i'r swyddog cyfrif farcio'r rhestr yn y modd a ragnodir gan reoliadau a wnaed o dan Ddeddf 1983(29).

(2) Nid yw rheol 36(3) yn gymwys at y diben o benderfynu, at ddibenion y rheol hon, a yw pleidlais bost neu bleidlais bost drwy ddirprwy wedi ei dychwelyd.

RHAN 5

Y Bleidlais

Mynediad i orsaf bleidleisio

- 21.—(1) Rhaid i'r swyddog llywyddu allgáu pob person o'r orsaf bleidleisio ac eithrio—
- (a) pleidleiswyr a dirprwyon;
 - (b) personau o dan 18 mlwydd oed sy'n dod gyda phleidleiswyr a dirprwyon i'r orsaf bleidleisio;
 - (c) yr arsylwyr pleidleisio a benodwyd i fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio;
 - (ch) y clercod a benodwyd i fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio;
 - (d) personau sydd â hawl i fod yn bresennol o dan unrhyw rai o adrannau 6A i 6D o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(30);
 - (dd) y cwnstabiliaid sydd ar ddyletswydd;
 - (e) cymdeithion pleidleiswyr a dirprwyon sydd ag anabledau;
 - (f) maer etholedig, os oes un, y cyngor y cynhelir y refferendwm mewn perthynas ag ef; ac
 - (ff) unrhyw drefnydd deiseb.

(2) Rhaid i'r swyddog llywyddu reoli nifer cyfanswm y pleidleiswyr, dirprwyon a phersonau o dan 18 mlwydd oed sy'n dod gyda hwy, y caniateir mynediad iddynt i'r orsaf bleidleisio yr un pryd.

(3) Rhaid peidio â chaniatáu mynediad i bleidleisio yn bersonol i gwnstabl neu berson a gyflogir gan y swyddog cyfrif yn unman heblaw'r orsaf bleidleisio a ddyrannwyd i'r cwnstabl neu'r person cyflogedig hwnnw o dan y Rheolau hyn, ac eithrio drwy ddangos ac ildio tystysgrif gyflogaeth y mae'n rhaid iddi fod yn y ffurf yn yr Atodiad neu ffurf ag effaith gyffelyb ac wedi ei llofnodi gan swyddog o'r heddlu o radd arolygydd neu radd uwch, neu gan y swyddog cyfrif, yn ôl y digwydd.

(4) Rhaid i unrhyw dystysgrif a ildir o dan y rheol hon gael ei chanslo ar unwaith.

Cadw trefn mewn gorsaf

22.—(1) Dyletswydd y swyddog llywyddu yw cadw trefn yng ngorsaf bleidleisio'r swyddog llywyddu.

(2) Os yw person yn camymddwyn mewn gorsaf bleidleisio, neu'n gwrthod ufuddhau i orchymnion cyfreithlon y swyddog llywyddu, caniateir symud y person hwnnw ar unwaith, ar orchymyn y swyddog llywyddu, allan o'r orsaf bleidleisio—

- (a) gan gwnstabl sydd yn yr orsaf honno neu gerllaw, neu
- (b) gan unrhyw berson arall a awdurdodir mewn ysgrifen gan y swyddog cyfrif i symud y person hwnnw,

(29) *Gweler* rheoliad 84A o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 O.S. 2001/341 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/2901.

(30) Mewnosodwyd adrannau 6A i 6F o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p.41) gan adran 29 o Ddeddf Gweinyddu Etholiadau 2006 (p.22).

a rhaid i'r person a symudir felly beidio â mynd i mewn drachefn i'r orsaf bleidleisio yn ystod y diwrnod heb ganiatâd y swyddog llywyddu.

(3) Caniateir i unrhyw berson a symudir felly, os y'i cyhuddir o gyflawni tramgwydd yn yr orsaf bleidleisio, gael ei drin fel person a gymerir i'r ddalfa gan gwnstabl am dramgwydd heb warant.

(4) Rhaid peidio ag arfer y pwerau a gyflwynir gan y rheol hon i atal pleidleisiwr neu ddirprwy, sydd fel arall â hawl i bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio, rhag cael cyfle i bleidleisio yn yr orsaf honno.

Selio blychau pleidleisio

23. Yn union cyn cychwyn y pleidleisio, rhaid i'r swyddog llywyddu ddangos y blwch pleidleisio yn wag i'r personau hynny, os oes rhai, sy'n bresennol yn yr orsaf bleidleisio, fel y gallant weld ei fod yn wag, ac yna, os oes clo ar y blwch, rhaid iddo ei gloi, a gosod sêl y swyddog llywyddu ar y blwch (p'un a oes clo ar y blwch ai peidio) yn y fath fodd fel na ellir ei agor heb dorri'r sêl, yna rhaid iddo osod y blwch yng ngolwg y swyddog llywyddu, yn barod ar gyfer derbyn papurau pleidleisio, a'i gadw felly dan glo ac wedi ei selio, neu wedi ei selio (yn ôl y digwydd).

Cwestiynau i'w gofyn i etholwyr a dirprwyon

24.—(1) Ar yr adeg pan wneir cais am bapur pleidleisio (ond nid wedyn), mae'r cwestiynau a bennir yn ail golofn y Tabl sy'n dilyn yn rhai —

- (a) y caiff y swyddog llywyddu eu gofyn i berson sy'n gwneud cais am bapur pleidleisio ac a grybwyllir yn y golofn gyntaf, a
- (b) y mae'n rhaid eu gofyn os oes llythyren “R” yn ymddangos ar ôl y cwestiwn a threfnydd deiseb yn mynnu bod y cwestiwn yn cael ei ofyn:

<i>Rhify C.</i>	<i>Person sy'n gwneud cais am bapur pleidleisio</i>	<i>Cwestiwn</i>
1	Person sy'n gwneud cais fel pleidleisiwr	<p>(a) (a) —Ai chi yw'r person sydd wedi ei gofrestru ar y gofrestr o etholwyr llywodraeth leol fel a ganlyn? <i>darllener y cofnod cyfan o'r gofrestr</i> [R]</p> <p>(b) —A ydych eisoes wedi pleidleisio, yma neu yn rhywle arall, yn yr etholiad hwn, ar wahân i fel dirprwy dros berson arall? [R]</p>
2	Person sy'n gwneud cais fel dirprwy	<p>(a) (a) —Ai chi yw'r person y mae eich enw yn ymddangos fel A.B. ar y rhestr o ddirprwyon ar gyfer ardal y bleidlais hon fel rhywun sydd</p>

Statws This is the original version (as it was originally made).

Rhify C.	Person sy'n gwneud cais am bapur pleidleisio	Cwestiwn
3	Person sy'n gwneud cais fel dirprwy i bleidleisiwr sydd â chofnod dienw (yn lle'r cwestiynau yng nghofnod 2)	<p>â hawl i fwrw pleidlais ddirprwy ar ran C.D.? [R]</p> <p>(b) —A ydych eisoes wedi pleidleisio, yma neu yn rhywle arall, yn y refferendwm hwn, fel dirprwy ar ran C.D.? [R]</p> <p>(c) —Ai chi yw priod, partner sifil, rhiant, nain (mam-gu) neu daid (tad-cu), brawd, chwaer, plentyn, neu wŷr neu wyres C.D.? [R]</p> <p>(a) (a) —Ai chi yw'r person sydd â hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran yr etholwr sydd â'r rhif canlynol ar y gofrestr etholwyr ar ei gyfer (<i>darllener y rhif</i>)? [R]</p> <p>(b) —A ydych eisoes wedi pleidleisio, yma neu yn rhywle arall, yn y refferendwm hwn, fel dirprwy ar ran yr etholwr sydd â'r rhif canlynol ar y gofrestr etholwyr ar ei gyfer (<i>darllener y rhif</i>)? [R]</p> <p>(c) —Ai chi yw priod, partner sifil, rhiant, nain (mam-gu) neu daid (tad-cu), brawd neu chwaer, plentyn, neu wŷr neu wyres yr etholwr sydd â'r rhif canlynol ar y gofrestr etholwyr (<i>darllener y rhif</i>)? [R]</p>

<i>Rhify C.</i>	<i>Person sy'n gwneud cais am bapur pleidleisio</i>	<i>Cwestiwn</i>
4	Person sy'n gwneud cais fel dirprwy pan nad atebir y cwestiwn yng nghofnod 2(c) neu 3(c) yn gadarnhaol	A ydych eisoes wedi pleidleisio yn y refferendwm hwn ar ran dau berson a chithau heb fod yn briod, partner sifil, rhiant, nain (mam-gu) neu daid (tad-cu), brawd neu chwaer, plentyn, neu wŷr neu wyres iddynt? [R]
5	Person sy'n gwneud cais fel pleidleisiwr ac yntau â chofnod ar ei gyfer yn y rhestr pleidleiswyr post.	(a) (a) —A wnaethoch gais i bleidleisio drwy'r post? (b) —Pam na wnaethoch bleidleisio drwy'r post?
6	Person sy'n gwneud cais fel dirprwy ac a enwir ar y rhestr o bleidleiswyr post fel dirprwyon	(a) (a) —A wnaethoch wneud cais i bleidleisio drwy'r post fel dirprwy? (b) —Pam na wnaethoch bleidleisio drwy'r post fel dirprwy?

(2) Yn achos person y dyroddwyd hysbysiad mewn perthynas ag ef o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983, mae'r cyfeiriadau at ddarllen o'r gofrestr yn y cwestiynau yng nghofnodion 1(a) a 3(a), (b) ac (c) i'w dehongli fel cyfeiriadau at ddarllen o'r hysbysiad a ddyroddwyd o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983.

(3) Rhaid peidio â chyflwyno papur pleidleisio i unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo ateb unrhyw rai o'r cwestiynau uchod oni fydd y person hwnnw wedi ateb pob un o'r cwestiynau yn foddhaol.

(4) Ac eithrio fel a awdurdodir gan y rheol hon, ni chaniateir gwneud unrhyw ymholiad ynghylch hawl person i bleidleisio.

Herio pleidleisiwr neu ddirprwy

25. Rhaid peidio ag atal person rhag pleidleisio oherwydd, yn unig, bod—

- unrhyw drefnydd deiseb neu arsylwr pleidleisio y caniateir iddo fod yn bresennol yn unol â rheol 21(1) yn datgan bod ganddo achos rhesymol dros gredu bod y person dan sylw wedi cyflawni'r tramgwydd o gambersonadu, neu
- bod y person wedi ei arestio ar sail amheuaeth ei fod yn cyflawni neu ar fin cyflawni tramgwydd o'r fath.

Gweithdrefn bleidleisio

26.—(1) Rhaid traddodi papur pleidleisio i bleidleisiwr neu ddirprwy sy'n gwneud cais am un, ac yn union cyn traddodi—

- (a) rhaid dweud yn uchel rhif ac (onid yw paragraff (2) yn gymwys) enw'r pleidleisiwr fel y'i datgenir yn y copi o'r gofrestr etholwyr;
- (b) rhaid marcio rhif y pleidleisiwr, fel y'i datgenir yn y gofrestr, ar y rhestr a grybwyllir yn rheol 17(3) (ch) wrth ochr rhif y papur pleidleisio sydd i'w ddyroddi i'r pleidleisiwr;
- (c) rhaid rhoi marc yn y copi o'r gofrestr etholwyr gyferbyn â rhif y pleidleisiwr i nodi ei fod wedi cael papur pleidleisio, ond heb ddangos pa un oedd y papur pleidleisio penodol a gafodd; ac
- (ch) yn achos person sy'n gwneud cais am bapur pleidleisio fel dirprwy, rhaid rhoi marc hefyd gyferbyn ag enw'r person hwnnw yn y rhestr o ddirprwyon.

(2) Yn achos pleidleisiwr sydd â chofnod dienw, rhaid i'r pleidleisiwr ddangos cerdyn pleidleisio swyddogol y pleidleisiwr i'r swyddog llywyddu, a rhif y pleidleisiwr yn unig y mae'n rhaid ei ddweud yn uchel yn unol â pharagraff (1)(a).

(3) Yn achos pleidleisiwr a ychwanegir at y rhestr yn unol â hysbysiad a ddyroddir o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983, addesir paragraff (1) fel a ganlyn—

- (a) yn is-baragraff (a), yn lle “copi o'r gofrestr etholwyr” rhodder “copi o'r hysbysiad a ddyroddwyd o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983”;
- (b) yn is-baragraff (b), yn lle “yn y gofrestr” rhodder “ar y copi o'r hysbysiad a ddyroddwyd o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983”;
- (c) yn is-baragraff (c), yn lle “yn y copi o'r gofrestr etholwyr” rhodder “ar y copi o'r hysbysiad a ddyroddwyd o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983”.

(4) Rhaid i'r pleidleisiwr neu'r dirprwy, ar ôl cael y papur pleidleisio, fynd yn syth i un o'r bythau yn yr orsaf bleidleisio ac yno, yn gyfrinachol, marcio papur y pleidleisiwr neu'r dirprwy a'i blygu er mwyn cuddio pleidlais y pleidleisiwr neu'r dirprwy, ac yna rhaid iddo ddangos cefn y papur i'r swyddog llywyddu gan ddatgelu'r rhif a'r nod adnabod unigryw arall, a rhoi'r papur pleidleisio, wedi ei blygu felly, i mewn yn y blwch pleidleisio ym mhresenoldeb y swyddog llywyddu.

(5) Rhaid i'r pleidleisiwr neu'r dirprwy bleidleisio heb oedi yn ormodol, a rhaid iddo adael yr orsaf bleidleisio cyn gynted ag y bo'r papur pleidleisio wedi ei roi yn y blwch pleidleisio.

Pleidleisiau wedi eu marcio gan y swyddog llywyddu

27.—(1) Rhaid i'r swyddog llywyddu, ar gais pleidleisiwr neu ddirprwy —

- (a) sy'n analluog oherwydd dallineb neu anabledd arall i bleidleisio yn y modd a gyfarwyddir gan y Rheolau hyn, neu
- (b) sy'n datgan ar lafar na all y pleidleisiwr neu'r dirprwy ddarllen,

ym mhresenoldeb yr arsylwyr pleidleisio (os oes rhai), achosi i bleidlais y person hwnnw gael ei marcio ar bapur pleidleisio yn y modd a gyfarwyddir gan y person hwnnw, ac i'r papur pleidleisio gael ei roi yn y blwch pleidleisio.

(2) Rhaid i enw pob person y caiff ei bleidlais ei marcio yn unol â'r rheol hon, a'i rif ar y rhestr etholwyr ynghyd â'r rheswm pam y'i marciwyd felly, gael eu cofnodi ar restr (a elwir yn y Rheolau hyn “y rhestr o bleidleisiau a farciwyd gan y swyddog llywyddu”).

Yn achos person sy'n pleidleisio fel dirprwy ar ran pleidleisiwr, y rhif sydd i'w gofnodi, ynghyd ag enw'r dirprwy, yw'r rhif sydd yn y gofrestr ar gyfer y pleidleisiwr.

(3) Yn achos person y dyroddwyd hysbysiad mewn perthynas ag ef o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983, mae paragraff (2) yn gymwys fel pe bai'r geiriau “pob person y caiff ei bleidlais ei marcio yn unol â'r rheol hon a'i rif ar y rhestr etholwyr” wedi eu disodli gan “a'r rhif ar gyfer pob person y dyroddwyd hysbysiad mewn perthynas ag ef o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983 ac y caiff ei bleidlais ei marcio yn unol â'r rheol hon”.

Pleidleisio gan bersonau ag anableddau

28.—(1) Os yw pleidleisiwr neu ddirprwy yn gwneud cais i'r swyddog llywyddu am ganiatâd ar sail—

- (a) dallineb neu anabledd arall, neu
- (b) anallu i ddarllen,

i bleidleisio gyda chymorth person arall (y cyfeirir ato yn y Rheolau hyn fel “y cydymaith”) sy'n dod gyda'r pleidleisiwr neu'r dirprwy, rhaid i'r swyddog llywyddu ei gwneud yn ofynnol i'r pleidleisiwr neu ddirprwy ddatgan, ar lafar neu mewn ysgrifen, a yw'r pleidleisiwr neu'r dirprwy wedi ei analluogi gan ddallineb neu anabledd arall, neu'r anallu i ddarllen, i'r cyfryw raddau fel na all bleidleisio heb gymorth.

(2) Os yw'r swyddog llywyddu—

- (a) yn fodlon bod y pleidleisiwr neu'r dirprwy wedi ei analluogi felly, a
- (b) ei fod hefyd wedi ei fodloni gan ddatganiad ysgrifenedig a wneir gan y cydymaith (y cyfeirir ato yn y Rheolau hyn fel “y datganiad a wneir gan gydymaith pleidleisiwr neu ddirprwy sydd ag anableddau”) bod y cydymaith—
 - (i) yn berson cymwys o fewn ystyr y rheol hon; a
 - (ii) nad yw eisoes wedi cynorthwyo mwy nag un pleidleisiwr neu ddirprwy ag anableddau i pleidleisio yn y refferendwm,

rhaid i'r swyddog llywyddu ganiatáu'r cais, ac yna caiff unrhyw beth o dan y Rheolau hyn sy'n ofynnol ei wneud i, neu gan, y pleidleisiwr neu'r dirprwy hwnnw mewn perthynas â bwrw pleidlais y pleidleisiwr neu'r dirprwy, ei wneud i, neu gyda chymorth, y cydymaith.

(3) At ddibenion y Rheolau hyn, mae person yn bleidleisiwr neu ddirprwy ag anableddau os yw'r person hwnnw wedi gwneud y cyfryw ddatganiad fel a grybwyllir ym mharagraff (1), ac y mae person i fod yn gymwys i gynorthwyo pleidleisiwr neu ddirprwy ag anableddau i bleidleisio os yw'r person hwnnw—

- (a) yn berson sydd â hawl i bleidleisio ar ran y person hwnnw ei hunan yn y refferendwm; neu
- (b) yn dad, mam, brawd chwaer, priod, partner sifil, mab neu ferch y pleidleisiwr neu'r dirprwy ac wedi cyrraedd 18 oed.

(4) Rhaid cofnodi enw pob person y bwrir ei bleidlais yn unol â'r rheol hon, ynghyd â'i rif ar y rhestr etholwyr ac enw a chyfeiriad y cydymaith, ar restr (a elwir yn y Rheolau hyn “y rhestr o bleidleiswyr neu ddirprwyon ag anableddau a gynorthwywyd gan gymdeithion”).

Yn achos person sy'n pleidleisio fel dirprwy ar ran pleidleisiwr, y rhif sydd i'w gofnodi, ynghyd ag enw'r dirprwy, yw'r rhif sydd yn y gofrestr ar gyfer y pleidleisiwr.

(5) Yn achos person y dyroddwyd hysbysiad mewn perthynas ag ef o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983, mae paragraff (4) yn gymwys fel pe bai'r geiriau “pob person y bwrir ei bleidlais ei yn unol â'r rheol hon a'i rif ar y rhestr etholwyr” wedi eu hamnewid gan “a'r rhif ar gyfer pob person y dyroddwyd hysbysiad mewn perthynas ag ef o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983 ac y bwrir ei bleidlais yn unol â'r rheol hon”.

(6) Rhaid i'r datganiad a wneir gan gydymaith pleidleisiwr neu ddirprwy ag anableddau—

- (a) fod yn y ffurf sydd yn yr Atodiad,
- (b) gael ei wneud gerbron y swyddog llywyddu ar yr adeg y mae'r pleidleisiwr neu'r dirprwy yn gwneud cais i bleidleisio gyda chymorth cydymaith, ac
- (c) gael ei roi yn ddi-oed i'r swyddog llywyddu, a rhaid i'r swyddog llywyddu ei ardstio a'i gadw.

(7) Ni chaniateir codi ffi nac unrhyw dâl arall mewn perthynas â'r datganiad

Papurau pleidleisio wedi eu tendro: yr amgylchiadau pan fônt ar gael

29.—(1) Os yw person, sy'n honni mai ef yw—

- (a) pleidleisiwr penodol a enwir ar y gofrestr ac nad yw ei enw yn y rhestr o bleidleiswyr absennol, neu
- (b) person penodol a enwir yn y rhestr o ddirprwyon fel dirprwy ar gyfer pleidleisiwr ac nad oes hawl ganddo i bleidleisio drwy'r post fel dirprwy,

yn gwneud cais am bapur pleidleisio wedi i berson arall bleidleisio yn bersonol, naill ai fel y pleidleisiwr neu ddirprwy'r pleidleisiwr, mae hawl gan yr ymgeisydd, ar ôl ateb yn foddhaol y cwestiynau y mae'r gyfraith yn caniatáu eu gofyn yn ystod y pleidleisio, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau rheol 30, i farcio papur pleidleisio (y cyfeirir ato yn y Rheolau hyn fel “papur pleidleisio sydd wedi ei dendro”) yn yr un modd ag unrhyw bleidleisiwr neu ddirprwy arall.

(2) Mae paragraff (4) yn gymwys os yw —

- (a) y person yn gwneud cais am bapur pleidleisio gan honni mai ef yw pleidleiswyr penodol a enwir ar y gofrestr,
- (b) y person wedi ei enwi hefyd yn y rhestr o bleidleiswyr post, ac
- (c) y person yn honni nad yw wedi gwneud cais i bleidleisio drwy'r post yn y refferendwm.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys hefyd os yw —

- (a) y person yn gwneud cais am bapur pleidleisio gan honni mai ef yw person penodol a enwir fel dirprwy yn y rhestr o ddirprwyon,
- (b) y person wedi ei enwi hefyd yn y rhestr o bleidleiswyr post fel dirprwyon, ac
- (c) y person yn honni nad yw wedi gwneud cais i bleidleisio drwy'r post fel dirprwy.

(4) Mae hawl gan y person, ar ôl ateb yn foddhaol y cwestiynau y mae'r gyfraith yn caniatáu eu gofyn yn ystod y pleidleisio, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau rheol 30, i farcio papur pleidleisio (y cyfeirir ato yn y Rheolau hyn fel “papur pleidleisio sydd wedi ei dendro”) yn yr un modd ag unrhyw bleidleisiwr neu ddirprwy arall.

(5) Mae paragraff (6) yn gymwys os yw person yn honni, cyn bo'r pleidleisio wedi cau ond ar ôl yr amser olaf y caiff person wneud cais am bapur pleidleisio post arall, mai ef yw—

- (a) pleidleisiwr penodol a enwir ar y gofrestr ac a enwir hefyd yn y rhestr pleidleiswyr post, neu
- (b) person penodol a enwir fel dirprwy yn y rhestr o ddirprwyon ac a enwir hefyd yn y rhestr o bleidleiswyr post fel dirprwyon,

ac yn honni ei fod wedi colli neu heb gael ei bapur pleidlais bost.

(6) Mae hawl gan y person, ar ôl ateb yn foddhaol y cwestiynau y mae'r gyfraith yn caniatáu eu gofyn yn ystod y pleidleisio, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau rheol 30, i farcio papur pleidleisio (y cyfeirir ato yn y Rheolau hyn fel “papur pleidleisio sydd wedi ei dendro”) yn yr un modd ag unrhyw bleidleisiwr neu ddirprwy arall.

Papurau pleidleisio wedi eu tendro: darpariaethau cyffredinol

30.—(1) Rhaid i bapur pleidleisio sydd wedi ei dendro—

- (a) fod o liw gwahanol i'r papurau pleidleisio eraill;
- (b) yn hytrach na chael ei roi yn y blwch pleidleisio, gael ei roi i'r swyddog llywyddu a'i arnodi gan y swyddog llywyddu ag enw'r person a farciodd bapur pleidleisio wedi ei dendro, ynghyd â rhif y person hwnnw ar y gofrestr etholwyr, a'i roi o'r neilltu mewn pecyn ar wahân.

(2) Rhaid cofnodi enw'r person a farciodd bapur pleidleisio wedi ei dendro, ynghyd â rhif y person hwnnw ar y gofrestr etholwyr, ar restr (a elwir yn y Rheolau hyn “y rhestr pleidleisiau wedi eu tendro”).

(3) Yn achos person sy'n pleidleisio fel dirprwy ar ran pleidleisiwr, y rhif y mae'n rhaid ei arnodi neu ei gofnodi, ynghyd ag enw'r dirprwy, yw'r rhif sydd yn y gofrestr ar gyfer y pleidleisiwr.

(4) Yn achos pleidleisiwr sydd â chofnod dienw, mae'r rheol hon a rheol 29 yn gymwys yn ddarostyngedig i'r addasiadau canlynol—

(a) ym mharagraffau (1)(b) a (2) uchod, rhaid anwybyddu'r cyfeiriadau at enw'r person a farciodd bapur pleidleisio wedi ei dendro;

(b) fel arall, rhaid dehongli cyfeiriad at berson a enwir ar gofrestr neu restr fel cyfeiriad at berson y mae ei rif yn ymddangos yn y gofrestr neu'r rhestr (yn ôl y digwydd).

(5) Yn achos person y dyroddwyd hysbysiad mewn perthynas ag ef o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983, mae'r rheol hon a rheol 29 yn gymwys fel pe bai—

(a) yn rheol 29(1)(a), (2)(a) a (5)(a), y geiriau “a enwir ar y gofrestr” wedi eu hamnewid gan “y dyroddwyd hysbysiad mewn perthynas ag ef o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983”;

(b) ym mharagraff (1)(b) o'r rheol hon, y geiriau “â rhif y person hwnnw ar y gofrestr etholwyr” wedi eu hamnewid gan “â'r rhif mewn perthynas â'r person hwnnw ar hysbysiad a ddyroddwyd o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983”;

(c) ym mharagraff (2) o'r rheol hon, y geiriau “â'i rif ar y gofrestr etholwyr” wedi eu hamnewid gan “â'r rhif mewn perthynas â'r person hwnnw ar hysbysiad a ddyroddwyd o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983”.

Papurau pleidleisio a ddifethwyd

31. Caniateir i bleidleisiwr neu ddirprwy sydd, oherwydd amryfusedd, wedi trin ei bapur pleidleisio yn y fath fodd fel na ellir ei ddefnyddio yn gyfleus fel papur pleidleisio, drwy gyflwyno'r papur i'r swyddog llywyddu a chynnig prawf digonol o'r amryfusedd i fodloni'r swyddog llywyddu, gael papur pleidleisio arall yn lle'r papur pleidleisio a gyflwynwyd felly (y cyfeirir ato yn y Rheolau hyn fel “papur pleidleisio a ddifethwyd”), a rhaid canslo ar unwaith y papur pleidleisio a ddifethwyd.

Cywiro gwallau ar ddiwrnod y pleidleisio

32. Rhaid i'r swyddog llywyddu gadw rhestr o'r personau y traddodir papurau pleidleisio iddynt o ganlyniad i newid a wneir yn y gofrestr yn rhinwedd adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983 Act, sy'n cael effaith ar ddiwrnod y pleidleisio.

Gohirio pleidleisio mewn achos o derfysg

33.—(1) Os torrir ar draws neu os rhwystrir y gweithrediadau mewn unrhyw orsaf bleidleisio gan derfysg neu drais agored, rhaid i'r swyddog llywyddu ohirio'r gweithrediadau tan y diwrnod canlynol a rhaid iddo hysbysu'r swyddog cyfrif yn ddi-oed.

(2) Pan ohirir y pleidleisio mewn unrhyw orsaf bleidleisio—

(a) rhaid i'r oriau pleidleisio ar y diwrnod y gohiriwyd iddo fod yr un oriau ag ar y diwrnod gwreiddiol; a

(b) rhaid dehongli cyfeiriadau yn y Rheolau hyn at gau'r pleidleisio yn unol â hynny.

Gweithdrefn wrth gau'r pleidleisio

34.—(1) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cau'r pleidleisio rhaid i'r swyddog llywyddu, ym mhresenoldeb yr arsylwyr pleidleisio (os oes rhai) wneud y canlynol yn becynnau ar wahân, wedi eu selio â sêl y swyddog llywyddu ei hunan a pha bynnag seliau eraill y dymuna'r arsylwyr pleidleisio eu gosod—

- (a) pob blwch pleidleisio a ddefnyddiwyd yn yr orsaf, wedi eu selio mewn ffordd sy'n atal ychwanegu unrhyw bapurau pleidleisio ychwanegol a heb eu hagor, ond gyda'r allwedd, os oes un, ynghlwm,
- (b) y papurau pleidleisio nas defnyddiwyd a'r papurau a ddifethwyd, gyda'i gilydd,
- (c) y papurau pleidleisio a oedd wedi eu tendro,
- (ch) y copïau a farciwyd o'r gofrestr etholwyr (gan gynnwys unrhyw gopïau wedi eu marcio a ddyroddwyd o dan adran 13B (3B) neu (3D) o Ddeddf 1983) a'r rhestr o ddirprwyon,
- (d) y rhestrau a baratowyd o dan reol 8, gan gynnwys y rhannau a gwblhawyd yn unol â rheol 26(1)(b) (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd yn y Rheolau hyn fel “y rhestrau rhifau cyfatebol a gwblhawyd”),
- (dd) y tystysgrifau ynglŷn â chyflogaeth ar ddyletswydd ar ddiwrnod y pleidleisio,
- (e) y rhestr o bleidleisiau a oedd wedi eu tendro, y rhestr o bleidleiswyr neu ddirprwyon ag anableddau a gynorthwywyd gan gymdeithion, y rhestr o bleidleisiau a farciwyd gan y swyddog llywyddu, datganiad o nifer y pleidleiswyr a dirprwyon y marciodd eu pleidleisiau felly gan y swyddog llywyddu o dan y penawdau “anabledd” ac “analluog i ddarllen”, y rhestr a wnaed o dan reol 32 (cywiro gwallau ar ddiwrnod y pleidleisio), a'r datganiadau a wnaed gan gymdeithion y pleidleiswyr a'r dirprwyon ag anableddau,

a rhaid iddo ddanfôn y pecynnau, neu achosi iddynt gael eu danfon, at y swyddog cyfrif, er mwyn i'r swyddog cyfrif fod â gofâl drostynt; ond os na ddanfônir y pecynnau gan y swyddog llywyddu yn bersonol at y swyddog cyfrif, mae'n ofynnol bod y swyddog cyfrif yn cymeradwyo'r trefniadau ar gyfer eu danfon.

(2) Rhaid i'r copïau sydd wedi eu marcio o'r gofrestr etholwyr ac o'r rhestr o ddirprwyon fod mewn un pecyn, ond rhaid iddynt beidio â bod yn yr un pecyn â'r rhestrau rhifau cyfatebol a gwblhawyd, nac ychwaith yn yr un pecyn â'r tystysgrifau ynglŷn â chyflogaeth ar ddyletswydd ar ddiwrnod y pleidleisio.

(3) Rhaid i ddatganiad (y cyfeirir ato yn y Rheolau hyn fel “y gyfriflen papurau pleidleisio”) a baratowyd gan y swyddog llywyddu fynd gyda'r pecynnau, gan ddangos nifer y papurau pleidleisio a ymddiriedwyd i'r swyddog llywyddu a rhoi cyfrif amdanynt o dan y penawdau o bapurau pleidleisio a ddyroddwyd ac na chyfrifir amdanynt fel arall, rhai nas defnyddiwyd, a ddifethwyd a phapurau pleidleisio wedi eu tendro.

RHAN 6**Cyfrif Pleidleisiau****Presenoldeb ar gyfer cyfrif pleidleisiau**

35.—(1) Rhaid i'r swyddog cyfrif wneud trefniadau i gyfrif y pleidleisiau ym mhresenoldeb yr arsylwyr cyfrif cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cau'r pleidleisio, a rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig i'r arsylwyr cyfrif sy'n nodi'r amser a'r lle y bydd y swyddog cyfrif yn cychwyn cyfrif y pleidleisiau.

- (2) Ni chaiff neb ac eithrio—

- (a) y swyddog cyfrif a chlercod y swyddog cyfrif,
- (b) yr arsylwyr cyfrif,
- (c) maer etholedig, os oes un, y cyngor y cynhelir y refferendwm mewn perthynas ag ef,
- (ch) y trefnyddion deiseb, a
- (d) personau sydd â hawl i fod yn bresennol yn rhinwedd adrannau 6A i 6D o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000,

fod yn bresennol yn ystod cyfrif y pleidleisiau, oni chaiff ganiatâd y swyddog cyfrif i fod yn bresennol.

(3) Ni fydd y swyddog cyfrif yn caniatáu i berson nad oes ganddo hawl i fod yn bresennol yn y cyfrif pleidleisiau fod yn bresennol yno, oni fodlonir y swyddog cyfrif na fydd hynny yn rhwystr i gyfrif y pleidleisiau yn effeithiol.

(4) Rhaid i'r swyddog cyfrif roi pa bynnag gyfleusterau rhesymol i'r arsylwyr cyfrif ar gyfer goruchwyllo'r gweithrediadau, a pha bynnag wybodaeth mewn perthynas â'r gweithrediadau, ag y gall y swyddog cyfrif eu rhoi, yn gyson â chynnal y gweithrediadau yn drefnus a chyflawni dyletswyddau'r swyddog cyfrif mewn perthynas â'r gweithrediadau.

(5) Yn benodol, pan fo'r pleidleisiau yn cael eu cyfrif trwy ddiolli'r papurau pleidleisio yn ôl pa ateb y pleidleisiwyd drosto ac yna cyfrif nifer y papurau pleidleisio ar gyfer bob ateb, mae hawl gan yr arsylwyr cyfrif i fodloni eu hunain bod y papurau pleidleisio wedi eu diolli yn gywir.

Y cyfrif

36.—(1) Rhaid i'r swyddog cyfrif—

- (a) ym mhresenoldeb yr arsylwyr cyfrif, agor pob blwch pleidleisio a chyfrif a chofnodi nifer y papurau pleidleisio sydd ynddo;
- (b) ym mhresenoldeb yr arsylwyr cyfrif, gwirio pob cyfriflen papurau pleidleisio; ac
- (c) cyfrif nifer y papurau pleidlais bost a ddychwelwyd yn briodol a chofnodi'r nifer a gyfrifwyd.

(2) Rhaid i'r swyddog cyfrif beidio â chyfrif y pleidleisiau a roddwyd ar unrhyw bapurau pleidleisio hyd nes eu bod —

- (a) yn achos papurau pleidlais bost, wedi eu cymysgu â'r papurau pleidleisio o un blwch pleidleisio, o leiaf, a
- (b) yn achos papurau pleidleisio o flwch pleidleisio, wedi eu cymysgu â'r papurau pleidleisio o un blwch pleidleisio arall, o leiaf.

(3) Rhaid peidio â chymryd bod papur pleidlais bost wedi ei ddychwelyd yn briodol oni bai—

- (a) ei fod yn cael ei ddychwelyd yn y modd a bennir ym mharagraff (4) ac yn cyrraedd y swyddog cyfrif neu unrhyw orsaf bleidleisio yn ardal y bleidlais dan sylw cyn bod y pleidleisio'n cau;
- (b) bod y datganiad pleidlais bost, wedi ei lofnodi yn briodol, hefyd yn cael ei ddychwelyd yn y modd a bennir ym mharagraff (4) ac yn cyrraedd y swyddog cyfrif neu'r cyfryw orsaf bleidleisio cyn yr amser hwnnw;
- (c) bod y datganiad pleidlais bost hefyd yn nodi dyddiad geni pleidleisiwr neu ddirprwy; ac
- (ch) mewn achos pan fo'r camau ar gyfer gwirio dyddiad geni a llofnod pleidleisiwr neu ddirprwy wedi eu rhagnodi gan reoliadau a wnaed o dan Ddeddf 1983(31), bod y swyddog cyfrif (ar ôl cymryd y cyfryw gamau) yn gwirio'r dyddiad geni a'r llofnod hwnnw.

(31) *Gweler* rheoliadau 85 ac 85A o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 (O.S. 2001/341), a fewnosodwyd gan O.S. 2006/2910.

(4) Y dull a ganiateir ar gyfer dychwelyd unrhyw bapur pleidlais bost neu ddatganiad pleidlais bost —

- (a) at y swyddog cyfrif, yw â llaw neu drwy'r post;
- (b) i orsaf bleidleisio, yw â llaw.

(5) Rhaid i'r swyddog cyfrif beidio â chyfrif unrhyw bapur pleidleisio sydd wedi ei dendro.

(6) Rhaid i'r swyddog cyfrif, tra'n cyfrif ac yn cofnodi nifer y papurau pleidleisio ac yn cyfrif y pleidleisiau gadw'r papurau pleidleisio â'u hwynebau tuag i fyny, a chymryd pob rhagofal priodol i atal unrhyw berson rhag gweld y rhifau neu'r nodau adnabod unigryw eraill a argraffwyd ar gefn y papurau.

(7) Rhaid i'r swyddog cyfrif wirio pob cyfriflen papurau pleidleisio drwy ei chymharu â nifer y papurau pleidleisio a gofnodir gan y swyddog cyfrif, a'r papurau pleidleisio nas defnyddiwyd neu a ddifethwyd sydd ym meddiant y swyddog cyfrif a'r rhestr pleidleisiau wedi eu tendro (gan agor ac ail selio'r pecynnau sy'n cynnwys y papurau pleidleisio nas defnyddiwyd ac a ddifethwyd a'r rhestr pleidleisiau wedi eu tendro) a rhaid iddo baratoi datganiad ynglŷn â chanlyniad y gwirio, y caiff unrhyw arsylwr cyfrif ei gopïo.

(8) Rhaid i'r swyddog cyfrif, cyn belled ag y bo'n ymarferol, barhau yn ddi-dor i gyfrif y pleidleisiau, gan ganiatáu amser i ffwrdd ar gyfer lluniaeth yn unig, ac eithrio y caniateir i'r swyddog cyfrif hepgor yr oriau rhwng 7 yr hwyr a 9 y bore drannoeth.

(9) Yn ystod y cyfnod a hepgorir felly, rhaid i'r swyddog cyfrif—

- (a) osod y papurau pleidleisio a'r dogfennau eraill sydd a wnelont â'r refferendwm o dan sêl y swyddog cyfrif ei hunan; a
- (b) cymryd rhagofalon priodol fel arall i ddiogelu'r papurau a'r dogfennau.

Ailgyfrif

37.—(1) Caiff trefnydd deiseb, os yw'n bresennol pan gwblheir y cyfrif neu unrhyw ailgyfrif o'r pleidleisiau, ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog cyfrif ailgyfrif y pleidleisiau neu eu hailgyfrif drachefn, ond caiff y swyddog cyfrif wrthod gwneud hynny os yw'r cais, ym marn y swyddog cyfrif, yn afresymol.

(2) Rhaid peidio â chymryd unrhyw gam ar ôl cwblhau'r cyfrif neu unrhyw ailgyfrif o'r pleidleisiau cyn bo pa bynnag drefnwyr deiseb sy'n bresennol ar adeg y cwblhau wedi cael cyfle rhesymol i arfer yr hawl a roddir gan y rheol hon.

Papurau pleidleisio a wrthodir

38.—(1) Mae unrhyw bapur pleidleisio—

- (a) nad yw'n dwyn y nod swyddogol, neu
- (b) y rhoddwyd pleidleisiau arno ar gyfer mwy nag un ateb, neu
- (c) sydd ag unrhyw beth wedi ei ysgrifennu neu ei farcio arno a fyddai'n caniatáu adnabod y pleidleisiwr neu ddirprwy, ac eithrio'r rhif printiedig a'r nod adnabod unigryw arall ar y cefn, neu
- (ch) sydd heb ei farcio neu'n ddi-rym oherwydd ansicrwydd,

yn ddarostyngedig i baragraff (2), yn ddi-rym, a rhaid peidio â'i gyfrif.

(2) Pan fo pleidlais wedi ei marcio ar bapur pleidleisio—

- (a) mewn man gwahanol i'r man priodol, neu
- (b) mewn dull gwahanol i ddefnyddio croes, neu
- (c) gan ddefnyddio mwy nag un marc,

rhaid peidio â'i ystyried yn ddi-rym os oes bwriad yn ymddangos yn amlwg i bleidleisio dros un ateb neu'r llall, ac os nad yw'r modd y marciwyd y papur yn ei hunan yn datgelu pwy yw'r pleidleisiwr neu ddirprwy, ac os na ddangosir bod modd adnabod y pleidleisiwr neu ddirprwy oddi wrtho.

(3) Rhaid i'r swyddog cyfrif arnodi'r gair "gwrthodwyd" ("rejected") ar unrhyw bapur pleidleisio nas cyfrifir oherwydd y rheol hon, a rhaid ychwanegu'r geiriau "gwrthwynebwyd ei wrthod" ("rejection objected to") at yr arnodiad os bydd arsylwr cyfrif yn gwneud unrhyw wrthwynebiad i benderfyniad y swyddog cyfrif.

(4) Rhaid i'r swyddog cyfrif baratoi datganiad sy'n dangos nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd o dan y gwahanol benawdau—

- (a) diffyg nod swyddogol;
- (b) pleidleisio dros fwy nag un ateb;
- (c) ysgrifen neu farc a fyddai'n caniatáu adnabod y pleidleisiwr neu ddirprwy;
- (ch) dim marc neu'n ddi-rym oherwydd ansicrwydd.

Penderfyniadau ynghylch papurau pleidleisio

39. Mae penderfyniad y swyddog cyfrif ar unrhyw gwestiwn sy'n codi mewn perthynas â phapur pleidleisio yn derfynol, ond yn ddarostyngedig i'w adolygu drwy ddeiseb refferendwm.

Pleidleisiau cyfartal

40. Os canfyddir, ar ôl gorffen cyfrif y pleidleisiau (gan gynnwys unrhyw ailgyfrif) bod y pleidleisiau yn gyfartal rhwng yr atebion, rhaid i'r swyddog cyfrif benderfynu'r refferendwm yn ddi-oed drwy fwrw coelbren.

RHAN 7

Cyhoeddi'r Canlyniad a Lleoli'r Dogfennau

Cyhoeddi'r canlyniad

41. Pan fod canlyniad y bleidlais wedi ei ganfod rhaid i'r swyddog cyfrif wneud y canlynol yn ddi-oed—

- (a) cyhoeddi canlyniad y refferendwm,
- (b) rhoi gwybod i swyddog priodol yr awdurdod a gynhaliodd y refferendwm, neu y cynhaliwyd y refferendwm mewn perthynas ag ef, o ganlyniad y refferendwm,
- (c) rhoi hysbysiad cyhoeddus o—
 - (i) ganlyniad y refferendwm,
 - (ii) nifer y papurau pleidleisio a gyfrifwyd,
 - (iii) nifer cyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd dros bob ateb, a
 - (iv) nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd o dan bob pennawd yn y datganiad o bapurau pleidleisio a wrthodwyd.

Selio'r papurau pleidleisio

42.—(1) Ar ôl cwblhau'r cyfrif mewn refferendwm, rhaid i'r swyddog cyfrif selio'r papurau pleidleisio a gyfrifwyd ac a wrthodwyd, mewn pecynnau ar wahân.

(2) Rhaid i'r swyddog cyfrif beidio ag agor y pecynnau seliedig o—

- (a) papurau pleidleisio a oedd wedi eu tendro,
- (b) rhestrau rhifau cyfatebol a gwblhawyd,
- (c) tystysgrifau ynglŷn â chyflogaeth ar ddyletswydd ar ddiwrnod y pleidleisio, neu
- (ch) copïau a farciwyd o'r gofrestr etholwyr (gan gynnwys y copïau a farciwyd o hysbysiadau a ddyroddwyd o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983) a rhestrau o ddirprwyon.

Trosglwyddo dogfennau i'r swyddog cofrestru perthnasol

43.—(1) Rhaid i'r swyddog cyfrif wedyn anfon y dogfennau canlynol ymlaen at y swyddog cofrestru perthnasol—

- (a) y pecynnau o bapurau pleidleisio sydd ym meddiant y swyddog cyfrif,
- (b) y cyfriflenni papurau pleidleisio a'r datganiadau o bapurau pleidleisio a wrthodwyd ac o ganlyniad gwirio'r cyfriflenni papurau pleidleisio,
- (c) y rhestrau o bleidleisiau sydd wedi eu tendro, y rhestrau o bleidleiswyr a dirprwyon ag anableddau a gynorthwywyd gan gymdeithion, y rhestrau o bleidleisiau a farciwyd gan y swyddog llywyddu a'r datganiadau cysylltiedig, y rhestrau a wnaed o dan reol 32, a'r datganiadau a wnaed gan gymdeithion y pleidleiswyr a dirprwyon ag anableddau,
- (ch) y pecynnau o restrau rhifau cyfatebol a gwblhawyd,
- (d) y pecynnau o dystysgrifau ynglŷn â chyflogaeth ar ddyletswydd ar ddiwrnod y pleidleisio, ac
- (dd) y pecynnau sy'n cynnwys copïau a farciwyd o'r cofrestrau (gan gynnwys unrhyw gopïau a farciwyd o hysbysiadau a ddyroddwyd o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983) ac o'r rhestr pleidleiswyr post, o'r rhestrau o ddirprwyon, ac o'r pleidleiswyr drwy'r post fel dirprwyon,

gan arnodi ar bob pecyn disgrifiad o'i gynnwys, dyddiad y refferendwm y mae'n ymwneud ag ef ac enw'r awdurdod lleol a gynhaliodd y refferendwm neu y cynhaliwyd y refferendwm mewn perthynas ag ef.

(2) Yn y rheol hon ac yn rheolau 44 a 45 mae'r cyfeiriadau at y swyddog cofrestru perthnasol yn cyfeirio at swyddog cofrestru'r awdurdod lleol a gynhaliodd y refferendwm neu y cynhaliwyd y refferendwm mewn perthynas ag ef.

Gorchmynion i ddangos dogfennau

44.—(1) Caiff llys sirol wneud gorchymyn—

- (a) ar gyfer archwilio neu ddangos unrhyw bapurau pleidleisio a wrthodwyd sydd ym meddiant y swyddog cofrestru perthnasol, neu
- (b) ar gyfer agor pecyn seliedig o restrau rhifau cyfatebol a gwblhawyd, neu dystysgrifau ynglŷn â chyflogaeth ar ddyletswydd ar ddiwrnod y pleidleisio, neu ar gyfer archwilio unrhyw bapurau pleidleisio a gyfrifwyd sydd ym meddiant y swyddog cofrestru perthnasol,

os bodlonir y llys, gan dystiolaeth a roddir ar lw, bod y gorchymyn yn ofynnol at y diben o gychwyn neu gynnal erlyniad am dramgwydd mewn perthynas â phapurau pleidleisio neu at ddiben deiseb refferendwm.

(2) Caiff llys etholiad wneud gorchymyn ar gyfer agor pecyn seliedig o restrau rhifau cyfatebol a gwblhawyd, neu dystysgrifau ynglŷn â chyflogaeth ar ddyletswydd ar ddiwrnod y pleidleisio, neu ar gyfer archwilio unrhyw bapurau pleidleisio a gyfrifwyd sydd ym meddiant y swyddog cofrestru perthnasol.

(3) Caiff y llys sy'n gwneud gorchymyn o dan y rheol hon wneud y gorchymyn yn ddarostyngedig i amodau o ran—

- (a) personau,
- (b) amser,
- (c) lleoliad a dull yr archwilio,
- (ch) dangos neu agor,

fel y gwêl y llys yn briodol.

(4) Wrth wneud ac wrth weithredu gorchymyn ar gyfer agor pecyn o'r rhestrau rhifau cyfatebol a gwblhawyd, neu dystysgrifau ynglŷn â chyflogaeth ar ddyletswydd ar ddiwrnod y pleidleisio, neu ar gyfer archwilio papurau pleidleisio a gyfrifwyd, rhaid cymryd gofal i beidio â datgelu'r ffordd y pleidleisiodd unrhyw berson penodol hyd nes bo wedi ei brofi bod—

- (a) pleidlais y person wedi ei bwrw; a
- (b) bod y bleidlais wedi ei chyhoeddi gan lys cymwys yn bleidlais annilys.

(5) Gwneir unrhyw apêl yn erbyn gorchymyn llys sirol o dan y rheol hon i'r Uchel Lys.

(6) Caniateir i unrhyw bŵer a roddir o dan y rheol hon i lys sirol gael ei arfer gan unrhyw farnwr o'r llys mewn modd gwahanol i'w arfer mewn llys agored.

(7) Pan wneir gorchymyn bod y swyddog cofrestru perthnasol yn dangos unrhyw ddogfen sydd yn ei feddiant mewn perthynas ag unrhyw refferendwm penodedig—

- (a) mae dangos, gan y swyddog cofrestru neu gan asiant y swyddog cofrestru, y ddogfen a orchymynnwyd, mewn modd sy'n unol ag unrhyw gyfarwyddiadau yn y gorchymyn hwnnw, yn dystiolaeth derfynol bod y ddogfen yn ymwneud â'r refferendwm penodedig: a
- (b) mae unrhyw arnodiad ar unrhyw becyn o bapurau pleidleisio a ddangosir felly yn dystiolaeth prima facie mai'r papurau pleidleisio hynny yw'r rhai a ddatgenir yn yr arnodiad.

(8) Mae dangos, ar ôl eu cadw yn briodol—

- (a) papur pleidleisio yr honnir iddo gael ei ddefnyddio mewn unrhyw refferendwm, a
- (b) rhestr rhifau cyfatebol a gwblhawyd, gyda rhif wedi ei farcio mewn ysgrifenedig wrth ochr rhif y papur pleidleisio,

yn dystiolaeth prima facie mai'r person y bwriwyd ei bleidlais gan y papur pleidleisio hwnnw oedd y person yr oedd ei gofnod yn y rhestr etholwyr neu ar hysbysiad a ddyroddwyd o dan adran 13B(3B) neu (3D) o Ddeddf 1983, ar adeg y refferendwm yn cynnwys yr un rhif â'r rhif ysgrifenedig a grybwyllir yn is-baragraff (b) o'r paragraff hwn.

(9) Ac eithrio fel a ddarperir gan y rheol hon, ni chaniateir i unrhyw berson archwilio unrhyw bapurau pleidleisio a wrthodwyd neu a gyfrifwyd, sydd ym meddiant y swyddog cofrestru perthnasol, nac agor unrhyw becynnau seiliedig o'r rhestrau rhifau cyfatebol a gwblhawyd, neu dystysgrifau ynglŷn â chyflogaeth ar ddyletswydd ar ddiwrnod y pleidleisio.

Cadw dogfennau

45. Rhaid i'r swyddog cofrestru perthnasol gadw am un flwyddyn yr holl ddogfennau mewn perthynas â refferendwm, a anfonwyd ymlaen at y swyddog cofrestru yn unol â'r Rheolau hyn gan swyddog cyfrif, ac yna, oni chyfarwyddir yn wahanol gan orchymyn o lys sirol, Llys y Goron, llys ynadon neu lys etholiad, rhaid iddo achosi iddynt gael eu dinistrio.

RHAN 8

Atodiad o Ffurfiâu

Noder:— Caniateir addasu'r ffurfiâu a gynhwysir yn yr Atodiad hwn cyn belled ag y bo amgylchiadau'n ei gwneud yn ofynnol i wneud hynny

Ffurf y Papur Pleidleisio: Datganiad a Chwestiwn yn y refferendwm fel a bennir ym mharagraff 1 o Atodlen 1

Ffurf y Papur Pleidleisio: Datganiad a Chwestiwn yn y refferendwm fel a bennir ym mharagraff 2 o Atodlen 1

Ffurf y Papur Pleidleisio: Datganiad a Chwestiwn yn y refferendwm fel a bennir ym mharagraff 3 o Atodlen 1

Rhestr Rhifau Cyfatebol L1

Rhestr Rhifau Cyfatebol L2

Ffurf y Datganiad Pleidlais Bost

Cerdyn Pleidleisio Swyddogol (i'w anfon at bleidleisiwr sy'n pleidleisio yn bersonol)

Cerdyn Swyddogol Pleidlais Bost (i'w anfon at bleidleisiwr sy'n pleidleisio drwy'r post)

Cerdyn Swyddogol Pleidleisio drwy Ddirprwy (i'w anfon at ddirprwy penodedig sy'n pleidleisio yn bersonol)

Cerdyn Swyddogol Pleidlais Bost drwy Ddirprwy (i'w anfon at ddirprwy penodedig sy'n pleidleisio drwy'r post)

Ffurf y cyfarwyddiadau fel canllawiau i bleidleiswyr a dirprwyon wrth bleidleisio

Ffurf Tystysgrif Cyflogaeth

Ffurf y datganiad sydd i'w wneud gan gydymaith pleidleisiwr neu ddirprwy ag anableddau

FFURF Y PAPUR PLEIDLEISIO			
FORM OF BALLOT PAPER			
FFURF Y PAPUR PLEIDLEISIO: DATGANIAD A CHWESTIWN YN Y REFFERENDWM FEL A BENNIR YM MHARAGRAFF 1 O ATODLEN 1			
BLAEN Y PAPUR PLEIDLEISIO			
FORM OF BALLOT PAPER: STATEMENT AND QUESTION IN REFERENDUM AS SPECIFIED IN PARAGRAPH 1 OF SCHEDULE 1			
FRONT OF BALLOT PAPER			
<p><i>[mewnosoder testun priodol y datganiad a'r cwestiwn fel a bennir ym mharagraff 1 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn]</i></p> <p>Rhowch groes (X) yn y blwch ar yr ochr dde gyferbyn â'r ateb o'ch dewis. Peidiwch â rhoi unrhyw farc arall ar y papur neu efallai na chaiff eich pleidlais ei chyfrif.</p>		<p><i>[insert appropriate text of statement and question as specified in paragraph 1 of Schedule 1 to these Regulations]</i></p> <p>Mark a cross (X) in the box on the right hand side of the answer of your choice. Do not mark the ballot paper in any other way or your vote may not be counted.</p>	
Pleidleisiwch UNWAITH yn unig		Vote ONCE only	
YDW		YES	
NAC YDW		NO	

CEFN Y PAPUR PLEIDLEISIO
BACK OF BALLOT PAPER

Rhif y Papur Pleidleisio
Nod Adnabod Unigryw Arall

Ballot Paper Number
Other Unique Identifying Mark

Refferendwm y cyngor ar *[mewnosoder y dyddiad]*:
[mewnosoder enw ardal y bleidlais]

Council referendum on *[insert date]*:
[insert name of voting area]

Statws This is the original version (as it was originally made).

<p>FFURF Y PAPUR PLEIDLEISIO: DATGANIAD A CHWESTIWN YN Y REFFERENDWM FEL A BENNIR YM MHARAGRAFF 2 O ATODLEN 1</p> <p>BLAEN Y PAPUR PLEIDLEISIO</p> <p>FORM OF BALLOT PAPER: STATEMENT AND QUESTION IN REFERENDUM AS SPECIFIED IN PARAGRAPH 2 OF SCHEDULE 1</p> <p>FRONT OF BALLOT PAPER</p>			
<p><i>[mewnosoder testun priodol y datganiad a'r cwestiwn fel a bennir ym mharagraff 2 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn]</i></p> <p>Rhowch groes (X) yn y blwch ar yr ochr dde gyferbyn â'r ateb o'ch dewis. Peidiwch â rhoi unrhyw farc arall ar y papur neu efallai na chaiff eich pleidlais ei ch yfrif.</p> <p>Pleidleisiwch UNWAITH yn unig</p>	<p><i>[insert appropriate text of statement and question as specified in paragraph 2 of Schedule 1 to these Regulations]</i></p> <p>Mark a cross (X) in the box on the right hand side of the answer of your choice. Do not mark the ballot paper in any other way or your vote may not be counted.</p> <p>Vote ONCE only</p>		
YDW		YES	
NAC YDW		NO	

**CEFN Y PAPUR PLEIDLEISIO
BACK OF BALLOT PAPER**

Rhif y Papur Pleidleisio
Nod Adnabod Unigryw Arall

Ballot Paper Number
Other Unique Identifying Mark

Refferendwm y cyngor ar *[mewnosoder y dyddiad]*:
[mewnosoder enw ardal y bleidlais]

Council referendum on *[insert date]*:
[insert name of voting area]

<p>FFURF Y PAPUR PLEIDLEISIO: DATGANIAD A CHWESTIWN YN Y REFFERENDWM FEL A BENNIR YM MHARAGRAFF 3 O ATODLEN 1</p> <p>BLAEN Y PAPUR PLEIDLEISIO</p> <p>FORM OF BALLOT PAPER: STATEMENT AND QUESTION IN REFERENDUM AS SPECIFIED IN PARAGRAPH 3 OF SCHEDULE 1</p> <p>FRONT OF BALLOT PAPER</p>			
<p><i>[mewnosoder testun priodol y datganiad a'r cwestiwn fel a bennir ym mharagraff 3 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn]</i></p> <p>Rhowch groes (X) yn y blwch ar yr ochr dde gyferbyn â'r ateb o'ch dewis. Peidiwch â rhoi unrhyw farc arall ar y papur neu efallai na chaiff eich pleidlais ei ch yfrif.</p> <p>Pleidleisiwch UNWAITH yn unig</p>		<p><i>[insert appropriate text of statement and question as specified in paragraph 3 of Schedule 1 to these Regulations]</i></p> <p>Mark a cross (X) in the box on the right hand side of the answer of your choice. Do not mark the ballot paper in any other way or your vote may not be counted.</p> <p>Vote ONCE only</p>	
YDW		YES	
NAC YDW		NO	

**CEFN Y PAPUR PLEIDLEISIO
BACK OF BALLOT PAPER**

Rhif y Papur Pleidleisio
Nod Adnabod Unigryw Arall

Refferendwm y cyngor ar *[mewnosoder y dyddiad]*:
[mewnosoder enw ardal y bleidlais]

Ballot Paper Number
Other Unique Identifying Mark

Council referendum on *[insert date]*:
[insert name of voting area]

Statws This is the original version (as it was originally made).

**Ffurf y Datganiad Pleidlais Bost
(i'w ddefnyddio mewn refferendwm)
Form of Postal Voting Statement
(for use at a referendum)**

Datganiad Pleidlais Bost	Postal Voting Statement
<p>*Enw'r person sy'n pleidleisio drwy'r post:</p> <p>Rhif y Papur Pleidleisio:.....</p> <p><i>*(Y Swyddog Cyfrif i lenwi'r enw, ond ei hepgor pan anfonir papurau pleidleisio at berson â chofnod dienw yn y gofrestr) [nod adnabod arall]</i></p> <p>Rhaid ichi ddarparu eich [*llofnod a'ch] dyddiad geni. Os na wnewch hynny, ni fydd y datganiad pleidlais bost yn ddilys ac ni fydd eich pleidlais yn cael ei chyfrif</p> <p>FI YW'R PERSON YR ANFONWYD Y PAPUR PLEIDLEISIO SYDD Â'R RHIF UCHOD ATO</p> <p>Dyddiad geni ⑤ ⑤ ⑤ ⑤ ⑤ ⑤ ⑤ ⑤ (Dyddiad geni'r person sy'n pleidleisio)</p> <p>Llofnod</p> <div style="border: 1px solid black; width: 150px; height: 40px; margin: 0 auto;"></div> <p align="center">(Llofnod y person sy'n pleidleisio)</p> <p align="center">PWYSIG - Llofnodwch o fewn y border</p> <p><i>*(Y Swyddog Cyfrif i'w hepgor pan fo person wedi cael hepgoriad)</i></p> <p>Mae twyllo wrth bleidleisio yn drosedd. Rhaid ichi beidio â phleidleisio drwy ddefnyddio papur pleidleisio nad yw wedi ei gyfeirio atoch chi, nac ymyrryd â phapur pleidleisio neb arall</p> <p>DARLLENWCH Y CYFARWYDDIADAU I'R PERSON SY'N PLEIDLEISIO</p> <p align="center">Cyhoeddwyd gan y Swyddog Cyfrif</p> <p>CYFARWYDDIADAU I'R PERSON SY'N PLEIDLEISIO</p>	<p>*Name of person voting by post</p> <p>Ballot Paper No:.....</p> <p><i>*(Counting Officer to insert name but omit where ballot papers sent to a person with an anonymous entry in the register) [other identifying mark]</i></p> <p>You must provide your [*signature and] date of birth. If you do not, the postal voting statement will be invalid and your vote will not be counted</p> <p>I AM THE PERSON THE BALLOT PAPER NUMBERED ABOVE WAS SENT TO</p> <p>Date of birth ⑤ ⑤ ⑤ ⑤ ⑤ ⑤ ⑤ ⑤ (Date of birth of person voting)</p> <p>Signature</p> <div style="border: 1px solid black; width: 150px; height: 40px; margin: 0 auto;"></div> <p align="center">(Signature of person voting)</p> <p align="center">IMPORTANT - Keep Signature within border</p> <p><i>*(Counting Officer to omit where a person has been granted a waiver)</i></p> <p>Voting fraud is a crime. You must not vote using a ballot paper that is not addressed to you or interfere with another person's ballot paper</p> <p align="center">PLEASE READ INSTRUCTIONS TO THE PERSON VOTING</p> <p align="center">Issued by the Counting Officer</p> <p align="center">INSTRUCTIONS TO THE PERSON VOTING</p>

<p>Llenwch y papur pleidleisio eich hunan, ac yn breifat. Os oes angen help arnoch, cysylltwch â staff y Swyddog Cyfrif fel a ddangosir isod</p> <p>[manyllion cyswllt ar gyfer cymorth, gan gynnwys cyfeiriad fel y bo'n briodol]</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Rhaid ichi ddarparu eich [*]lofnod a'ch] dyddiad geni. Os na wnewch hynny, ni fydd y datganiad pleidlais bost yn ddilys ac ni fydd eich pleidlais yn cael ei chyfrif. 2. Pleidleiswch UNWAITH yn unig. Peidiwch â rhoi unrhyw farc arall ar y papur neu efallai na chaiff eich pleidlais ei chyfrif. 3. Rhowch groes (X) yn y blwch ar yr ochr dde gyferbyn â'r ateb o'ch dewis. 4. Os oes angen help arnoch i bleidleisio, rhaid i'r person sy'n eich helpu beidio â dweud wrth neb sut y pleidleisioch. 5. Rhowch y papur pleidleisio yn yr amlen fach a farciwyd A a seliwch yr amlen. 6. Llenwch y datganiad pleidlais bost, drwy [*ei lofnodi, a] nodi eich dyddiad geni. 7. Yna rhowch yr amlen a farciwyd A ynghyd â'r datganiad pleidlais bost i mewn yn yr amlen fwy, a farciwyd B. Anfonwch hi yn ôl ar unwaith. 8. Ar ôl cael y bleidlais bost hon, ni fyddwch yn cael pleidleisio yn bersonol mewn gorsaf bleidleisio yn y refferendwm hwn. 9. Os digwydd ichi ddifetha eich papur pleidleisio yn ddamweiniol, gallwch wneud cais i'r Swyddog Cyfrif am bapur pleidleisio arall yn ei le, cyn 5.00pm ar [diwrnod/ dyddiad y pleidleisio]. Bydd yn rhaid ichi ddychwelyd y papur pleidleisio a ddifethwyd, y datganiad pleidlais bost a'r amlenni a farciwyd A a B. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cysylltu â'r Swyddog Cyfrif cyn gynted ag y bo modd <p>! Rhaid i'ch papur pleidleisio a'r datganiad pleidlais bost gyrraedd y Swyddog Cyfrif erbyn 10.00am ar [diwrnod/ dyddiad y pleidleisio]. Cewch ddanfôn eich pleidlais bost gyflawn i unrhyw orsaf bleidleisio yn ardal y bleidlais ar ddiwrnod y bleidlais.</p> <p>Mae twyllo wrth bleidleisio yn drosedd. Rhaid ichi beidio â phleidleisio drwy ddefnyddio papur pleidleisio nad yw wedi ei gyfeirio atoch chi, nac ymyrryd â phapur pleidleisio neb arall</p> <p>Mae'n anghyfreithlon pleidleisio fwy nag unwaith yn yr un refferendwm (oni chawsoch eich penodi yn ddirprwy i berson arall sydd â hawl i bleidleisio yn y refferendwm)</p> <p>*(Y Swyddog Cyfrif i'w hepgor pan fo person wedi cael hepgoriad)</p>	<p>Complete the ballot paper yourself and in private. If you need help contact the Counting Officer's staff as shown below</p> <p>[contact details for assistance include address as appropriate]</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. You must provide [*signature and] date of birth. If you do not, the postal voting statement will be invalid and your vote will not be counted. 2. Vote ONCE only. Do not mark the ballot paper in any other way, or your vote may not be counted. 3. Mark a cross (X) in the box on the right hand side of the answer of your choice. 4. If you need help voting, the person helping you must not tell anyone how you voted. 5. Put the ballot paper in the small envelope marked A and seal it. 6. Complete the postal voting statement by [*signing it, and] providing your date of birth. 7. Then put the envelope marked A together with the postal voting statement in the larger envelope marked B. Return it straightaway. 8. After receiving this postal vote, you cannot vote in person at a polling station at this referendum. 9. If you accidentally spoil your ballot paper, you can apply to the Counting Officer for a replacement before 5.00pm on [day/date of poll]. You must return the spoiled ballot paper, the postal voting statement and the envelopes marked A and B. Make sure you contact the Counting Officer as soon as possible. <p>! Your ballot paper and the postal voting statement must be received by the Counting Officer by 10.00am on [day/date of poll]. You can deliver your completed postal vote to any polling station in your voting area on polling day.</p> <p>Voting fraud is a crime. You must not vote using a ballot paper that is not addressed to you or interfere with another person's ballot paper</p> <p>It is illegal to vote more than once at the same referendum (unless you are appointed as a proxy for another person entitled to vote at the referendum)</p> <p>*(Counting Officer to omit where a person has been granted a waiver)</p>
--	--

Statws This is the original version (as it was originally made).

<p style="text-align: center;">CERDYN PLEIDLEISIO SWYDDOGOL</p> <p>(i'w anfon at bleidleisiwr sy'n pleidleisio yn bersonol) <i>Blaen y cerdyn</i></p> <p style="text-align: center;">CERDYN PLEIDLEISIO SWYDDOGOL</p> <p>Cyngor: Rhif ar y Gofrestr:</p> <p>Ardal y Bleidlais: *Enw</p> <p>Diwrnod Pleidleisio: *Cyfeiriad</p> <p>Oriau pleidleisio: 7 a.m. tan 10 p.m.</p> <p>Eich gorsaf bleidleisio fydd: *(Y Swyddog Cyfrif i'w hepgor pan anfonir cerdyn pleidleisio at berson â chofnod diemw yn y gofrestr. Rhaid anfon cerdyn pleidleisio at berson o'r fath mewn amlen seliedig)</p> <p>*Cerdyn er gwybodaeth yn unig yw hwn. Gallwch bleidleisio hebdo, ond bydd yn arbed amser os ewch â'r cerdyn gyda chi i'r orsaf bleidleisio a'i ddangos i'r clerwr yno</p> <p style="text-align: center;">GWELER YR WYBODAETH YCHWANEGOL AR GEFN Y CERDYN HWN</p> <p style="text-align: center;"><i>Cefn y Cerdyn</i></p> <p style="text-align: center;">REFERENDWM [mewnoder enw'r awdurdod lleol]</p> <p>*Pan ewch i'r orsaf bleidleisio, dywedwch eich enw a'ch cyfeiriad wrth y clerwr, fel y'u dangosir ar wyneb y cerdyn.</p> <p>*Bydd y clerwr yn cadarnhau eich manylion ar y gofrestr.</p> <p>Pan roddir eich papur pleidleisio ichi, ewch i mewn i un o'r bythau pleidleisio. Rhwch groes (X) yn y blwch ar yr ochr dde gyferbyn â'r ateb o'ch dewis.</p> <p>Pleidleiswch UNWAITH yn unig. Peidiwch â rhoi unrhyw farc arall ar y papur pleidleisio neu efallai na chaiff eich pleidlais ei chyfrif.</p>	<p style="text-align: center;">OFFICIAL POLL CARD</p> <p>(to be sent to a voter voting in person) <i>Front of card</i></p> <p style="text-align: center;">OFFICIAL POLL CARD</p> <p>Council: Number on Register:</p> <p>Voting Area: *Name</p> <p>Polling Day: *Address</p> <p>Polling hours: 7 a.m. to 10 p.m.</p> <p>Your polling station will be: *(Counting Officer to omit where polling card sent to a person with an anonymous entry in the register. Poll card to such a person must be delivered in a sealed envelope)</p> <p>*This card is for information only. You can vote without it, but it will save you time if you take it to the polling station and show it to the clerk there</p> <p style="text-align: center;">SEE FURTHER INFORMATION ON THE BACK OF THIS CARD</p> <p style="text-align: center;"><i>Back of Card</i></p> <p style="text-align: center;">[insert name of local authority] REFERENDUM</p> <p>*When you go to the polling station tell the clerk your name and address, as shown on the front of the card.</p> <p>*The clerk will confirm your details on the register.</p> <p>When you are given your ballot paper, go to one of the polling booths. Mark a cross (X) in the box on the right hand side of the answer of your choice.</p> <p>Vote ONCE only. Do not put any other mark on the ballot paper, or your vote may not be counted.</p>
--	--

Os gwnewch gamgymeriad a difetha eich papur pleidleisio, dangoswch y papur i'r swyddog llywyddu a gofynnwch am un yn ei le.

Plygwch y papur pleidleisio yn ddau. Dangoswch y rhif a'r nod adnabod unigryw arall sydd ar gefn y papur i'r swyddog llywyddu, ond peidiwch â gadael i neb weld eich pleidlais. Rhowch y papur yn y blwch pleidleisio ac ewch allan o'r orsaf pleidleisio.

Os byddwch i ffwrdd ar ddyddiad y pleidleisio—

- Gallwch wneud cais i bleidleisio drwy'r post. Rhaid i'ch ffurflen ddod i law cyn 5 p.m. ar [dyddiad cau -11 diwrnod]. Os rhoddir pleidlais bost ichi, ni fydd hawl gennych i bleidleisio yn bersonol yn y refferendwm hwn.
- Gallwch wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy (hynny yw, gall rhywun arall bleidleisio ar eich rhan). Rhaid i'ch cais ddod i law cyn 5 p.m. ar [dyddiad cau -6 diwrnod]. Os penodwch ddirprwy bydd yn dal yn bosibl ichi bleidleisio yn bersonol yn y refferendwm hwn os gwnewch hynny cyn i'ch dirprwy bleidleisio ar eich rhan. [dyddiad cau -6 diwrnod].
- Mewn amgylchiadau penodol, gall fod yn bosibl gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy ar ôl [dyddiad cau -6 diwrnod]

Er mwyn newid unrhyw drefniadau pleidleisio, dylech gysylltu â [rhif llinell gymorth] cyn gynted ag y bo modd.

Cyhoeddwyd gan y Swyddog Cyfrif

[Pan anfonir cerdyn pleidleisio at berson sydd â chofnod diennw yn y gofrestr, rhowch y canlynol yn lle'r paragraffau a farciwyd â * uchod:-

Rhaid ichi fynd â'r cerdyn hwn gyda chi i bleidleisio. Ni chewch bleidleisio hebdo.

Pan gyrhaeddwch yr orsaf pleidleisio, gofynnwch am gael siarad â'r swyddog llywyddu, a dangoswch y cerdyn hwn iddo.

Bydd y swyddog llywyddu yn cadarnhau eich cofnod ar y gofrestr].

If you spoil your ballot paper by mistake, show it to the presiding officer and ask for a replacement.

Fold the ballot paper in two. Show the presiding officer the number and other unique identifying mark on the back of the ballot paper, but do not let anyone see your vote. Put the ballot paper in the ballot box and leave the polling station.

If you will be away on the date of the poll—

- You can apply to vote by post. Your application form must be received before 5 p.m. on [-11 day/date deadline]. If you are given a postal vote, you will not be entitled to vote in person at this referendum.
- You can apply to vote by proxy (this means someone else can vote on your behalf). Your application must be received before 5 p.m. on [-6 day/date deadline]. If you appoint a proxy you can still vote in this referendum yourself if you do so before your proxy has voted for you. [-6 day/date deadline].
- In certain circumstances it may be possible to apply to vote by proxy after [-6 day/date deadline]

To change any of your voting arrangements please contact [helpline number] as soon as possible.

Issued by the Counting Officer

[Where poll card sent to a person with an anonymous entry in the register substitute for the paragraphs marked with * above:-

You must have this card with you when you vote. You cannot vote without it.

When you go to the polling station, ask to speak to the presiding officer and show them this card.

The presiding officer will confirm your entry on the register].

Statws This is the original version (as it was originally made).

<p>CERDYN SWYDDOGOL PLEIDLAIS BOST (i'w anfon at bleidleisiwr sy'n pleidleisio drwy'r post) <i>Blaen y cerdyn</i></p>	<p>OFFICIAL POSTAL POLL CARD (to be sent to a voter voting by post) <i>Front of card</i></p>
<p>CERDYN SWYDDOGOL PLEIDLAIS BOST</p> <p>Cyngor: Diben yr hysbysiad hwn yw dweud wrthych eich bod wedi gwneud cais i bleidleisio drwy'r post ar gyfer y refferendwm hwn, ac na fydd modd ichi bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio. Os ydych yn dymuno canslo eich pleidlais bost, ffoniwch y rhif llinell gymorth isod cyn 5 p.m. ar [dyddiad cau - 11 diwrnod].</p> <p>Ardal y Bleidlais: Byddwn yn anfon eich papurau pleidlais bost atoch tua [diwrnod/ dyddiad].</p> <p>Ar gyfer y refferendwm ar [diwrnod/ dyddiad]</p> <p>Rhif ar y Gofrestr</p> <p>*Enw a Chyfeiriad *(Y Swyddog Cyfrif i'w hepgor pan anfonir cerdyn pleidleisio at berson â chofnod diemw yn y gofrestr. Rhaid danfon cerdyn pleidleisio at berson o'r fath mewn amlen seliedig.)</p> <p>Cyfeiriwyd at: (Enw a Chyfeiriad))</p> <p>Os na fydd eich papurau pleidlais bost wedi cyrraedd erbyn [diwrnod/ dyddiad] ffoniwch [rhif llinell gymorth] a gofynnwch am help.</p> <p>Os digwydd ichi gollu eich papur pleidleisio neu ei ddifetha yn ddamweiniol, ffoniwch y rhif llinell gymorth uchod, cyn gynted ag y bo modd. Gellir rhoi papurau pleidleisio arall cyn 5 p.m. ar [diwrnod/ dyddiad y pleidleisio].</p> <p>Diben y cerdyn hwn yw rhoi gwybodaeth ichi am bleidleisio drwy'r post</p> <p>GWELER YR WYBODAETH AR GEFN Y CERDYN</p> <p><i>Cefn y Cerdyn</i></p>	<p>OFFICIAL POSTAL POLL CARD</p> <p>Council: This notice is to tell you that you have asked to vote by post for this referendum, and you will not be able to vote in a polling station. If you want to cancel your postal vote please call the helpline number shown below before 5 p.m on [-11day/date deadline].</p> <p>Voting Area: For the referendum on [day/date]</p> <p>Number on Register</p> <p>*Name and Address *(Counting Officer to omit where poll card sent to a person with an anonymous entry in the register. Poll card to such a person must be delivered in a sealed envelope.)</p> <p>We will send your postal voting papers around [day/date].</p> <p>Addressed to: (Name and Address)</p> <p>If your postal voting papers have not arrived by [day/date] call [helpline number] and ask for help.</p> <p>If you lose or accidentally spoil your postal ballot paper, please call the helpline number shown above as soon as possible. Replacement ballot papers can be issued before 5 p.m. on [day/date of poll].</p> <p>This card is to provide you with information about voting by post</p> <p>SEE INFORMATION ON BACK OF THIS CARD</p> <p><i>Back of card</i></p>
<p>REFERENDWM [mewnosoder enw'r awdurdod lleol]</p> <p>Os gwelwch yn dda, pan gewch eich pecyn pleidlais bost, darllenwch y cyfarwyddiadau yn ofalus cyn llenwi eich papur pleidlais bost.</p>	<p>[insert name of local authority] REFERENDUM</p> <p>When you receive your postal voting pack, please read the instructions with it carefully before completing your postal ballot paper.</p>

